# Y DINESYDD

Hydref 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 472 £1.20




## Bechgyn tîm pêl-foli Cymru gyda'u hyfforddwr Jonathan Fray Ruiz

tud. 10

## Côr bechgyn hŷn Plasmawr yn Eisteddfod Tregaron

tud.9



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**David Charles**

***Golygyddion Tachwedd***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Hydref at:
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol

Wel, tro ar fyd ers cyhoeddi rhifyn diwethaf *Y Dinesydd* ynte! Brenin a Phrif Weinidog Newydd i'r Deyrnas Unedig (rhaid gofyn beth sy'n "unedig" am wledydd yr ynys hon erbyn hyn?) a "prince" newydd yng Ngwlad y Gân – Wil tro 'ma yn lle Carlo! Mae'n rhaid i mi ddweud nad oes un o'r digwyddiadau hyn wedi codi fy nghalon i, felly braf yw cael rhifyn newydd o'r *Dinesydd i* wneud hynny.

Pan dwi'n clywed am Bêl Foli Traeth, dwi'n meddwl am lefydd fel Traeth Bondi yn Awstralia, neu Acapulco, neu lefydd egsotig eraill fel traethau'r Caribî. Pwy fasa'n meddwl bod cyfle i ni yn y ddinas i chwarae'r gamp – ym Mharc Fictoria. Pe tawn ychydig flynyddoedd yn ifancach! …….

'Dwi'n barod iawn i gyfaddef nad ydw i erioed wedi gweld pathew – meddwl amdano jyst fel llygoden fach arall. Ond mae'n greadur llawer mwy diddorol na hynny, fel y gwelwch yn yr erthygl – ac mae i'w weld yma yn y ddinas - os 'dych chi'n lwcus!

Mae llawer mwy ar gael yn y rhifyn hwn wrth gwrs. Darllen am lwyddiannau ein pobl ifanc mewn amryw o feysydd, dysgu mwy am y gyllideb ddiweddar (dim llawer i godi'r ysbryd yn hon 'chwaith) a chanfod llefydd i fwyta (a phrynu bwyd) yn y ddinas. Mwynhewch!

### Dosbarthu'r *Dinesydd*

Ers rhai misoedd bu'n gyfnod heriol i ddosbarthu copïau a hynny o ganlyniad i amrywiol resymau gan gynnwys postio. Rydym yn hyderus y bydd dosbarthu rhifyn mis Hydref yn llai trafferthus.

Ymddengys bod cyfnod Ceri Morgan fel swyddog tanysgrifiadau wedi dirwyn i ben. Mae Ceri wedi dal nifer o'r swyddi gyda'r *Dinesydd* ers nifer dda o flynyddoedd. Diolchwn i Ceri am ei ymdrechion a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Bydd Gwilym Dafydd yn gweithredu fel swyddog tanysgrifiadau dros dro ac hefyd yn postio copïau mis Hydref i danysgrifwyr. Gwelir manylion cysylltu yn y golofn ar yr ochr chwith.

### Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Ar y cyntaf o Dachwedd eleni bydd Sianel Cymraeg S4C yn dathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu."*

Ers y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* dan ni wedi profi mis llawn o ddigwyddiadau hanesyddol gyda marwolaeth sydyn y Frenhines wedi iddi wasanaethu Prydain yn gydwybodol am 70 mlynedd ac yna cydnabod Siarl yn Frenin i'w holynu ac yntau yn cyhoeddi yn gwbl annisgwyl mai William ei fab hŷn fydd yn ei olynu fel Tywysog Cymru!

Ar ben hynny gwelwyd Liz Truss yn dod yn Brif Weinidog Prydain i olynu Boris Johnson, a thu hwnt i Brydain cafwyd llifogydd difrifol yn Pacistan a orchuddiodd traean o'r wlad gan achosi argyfwng i'r boblogaeth ac yn rhybudd i bawb am newid hinsawdd yn y byd. Hefyd yn yr Wcráin llwyddodd byddin y wlad i wthio byddin Rwsia yn ôl yn nwyrain y wlad a dangos i Putin na fydd o byth yn goresgyn Wcráin.

Yn Eisteddfod Tregaron enillwyd gwobr "Ysbryd y Frwydr" yn y lle celf ar faes yr Eisteddfod gan Gwenllian Llwyd. Rhoddwyd y wobr gan yr arlunydd adnabyddus Ifor Davies o Benarth. Rhoddodd Ifor £3,000 o'i wobr a enillodd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain iddo nôl yn 2002 tuag at y wobr newydd. Ar nodyn personol bu Ifor a minnau yn gyd-ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhenarth, a chofiaf am ei ddawn amlwg ym myd celf hyd yn oed y pryd hynny. Dim ond pedwar ohonon ni odd yn medru'r Gymraeg yn ein cyfnod yn yr ysgol ac odd Ifor yn un o'r pedwar.

Mae 'Yes Cymru' wedi penodi Prifweithredwr llawn amser yn ddiweddar sef Gwern Gwynfil, 48 oed ,a raddiodd mewn hanes yn Rhydychen cyn ennill diploma ôl raddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ei fam Rhiannon Ifans ydy perchennog y busnes gemwaith teuluol yn Nhregaron. Bu ei daid yr addysgwr a Chymro brwd Dr Jac L Williams yn ddarlithydd Cymraeg ysbrydoledig i mi yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin ac yn y Gyfadran Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ar y cyntaf o Dachwedd eleni bydd Sianel Cymraeg S4C yn dathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu nôl yn 1982. Pennaeth cyntaf y Sianel odd Owen Edwards sef mab hŷn Syr Ifan ab Owen Edwards. Dros y blynyddoedd mae'r Sianel wedi llwyddo i ddenu miloedd lawer i wylio rhaglenni poblogaidd fel *Pobol y Cwm, Rownd a Rownd, C'mon Midfffîld* a rhaglenni chwaraeon. Hir oes i'r Sianel! Bu'n frwydr galed i'w sefydlu ond mae o wedi talu ar ei ganfed ac wedi rhoi hwb sylweddol i boblogeiddio'r Gymraeg yn ein gwlad.

Llongyfarchiadau i Jeremiah Azu 21 oed o Gaerdydd a enillodd Fedal Aur yn yr EUROS ym Munich yn yr Almaen yn ystod yr Haf yn y râs gyfnewid ac ar ben hynny enillodd Fedal Efydd yn y râs Ganllath. Mae'n amlwg bod dyfodol disglair iddo ym myd y chwaraeon.

Mae symudiad ar droed i godi cerflun yng Nghaerdydd i Rhodri Morgan a wasanaethodd fel Prif Weinidog Cymru rhwng 2000 a 2009 ac anelir lleoli'r cerflun o bosibl ym Mae Caerdydd a hynny erbyn 2024. Bu Rhodri farw'n sydyn ac annisgwyl yn 2017. Odd o'n fab hŷn i'r Athro T J Morgan a chafodd ei fagu ym Mhentre Poeth yng Nghaerdydd a bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd sef yr un ysgol â Gareth Bale, Geraint Thomas a Sam Warburton.

Trist ydy gorfod cofnodi marwolaeth Eddie Butler y cawr ym myd rygbi a darlledu y mis diwethaf yn hollol annisgwyl a dirybudd yn ei gwsg ac yntau ar ganol codi arian i'r elusen "Prostate Cymru" gyda'i ferch Nell ar lwybr yr Inca i Machu Picchu ym Mheriw. Un o ŵyr Gwent odd Eddie a chafodd ei eni yng Nghasnewydd cyn i'r teulu symud i fyw i Raglan pan odd o'n dair oed. Addysgwyd o yn Ysgol Mynwy cyn iddo fynd i Gaergrawnt i astudio ieithoedd a bu'n athro am dair blynedd wedi hynny cyn dod i'r amlwg fel capten tîm rygbi Cymru yn ogystal â chwarae i dîm rygbi Pont-y-Pŵl. Odd o'n Gymro i'r carn a dwy flynedd yn ôl ym Merthyr Tudful bu'n annerch y miloedd yng ngorymdaith "Yes Cymru" dros annibyniaeth i'n gwlad. Gedy bwlch mawr o'i ôl ym mywyd cyhoeddus Cymru. Heddwch i'w lwch.

Y mis diwethaf gorffennais i fy ngholofn hefo cerdd a dyma orffen y golofn hon eto hefo rhan o gerdd gan y bardd Crwys o'r enw "Dysgub y Dail" sy'n portreadu hen ŵr yn ysgubo dail ynghanol gwynt yr Hydref ac mae'r pennill olaf yn un ysgytiol ac yn rhybudd i bawb! "Pentwr arall: yna gorffwys/Ennyd ar yn ail/Hydref eto, a bydd yntau/gyda'r dail". Gwelir y gerdd lawn yn y gyfrol "Hoff Gerddi Cymru".

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn Natur

## *Creaduriaid Caerdydd*



Gethin Jenkins-Jones

**Y Pathew**

Yn debyg i blant ysgol sydd newydd gychwyn blwyddyn academaidd newydd, nawr bod fy nghyfres hanes Caerdydd bellach wedi gorffen, mae'n amser i mi hefyd gychwyn cyfres newydd. Felly am y flwyddyn nesaf dwi am ffocysu ar rywogaethau penodol sy'n medru cael eu gweld yn ardal y ddinas. Weithiau byddaf yn dewis anifeiliaid cymharol anhysbys, ac weithiau rhwogaethau cyffredin efo ecoleg llawer mwy diddorol na fyddai rhan fwyaf ohonom yn meddwl. Y mis hwn rwyf am gychwyn efo un o anifeiliaid mwyaf ciwt Caerdydd - y Pathew.

Efo'i ffwr aur, llygaid mawr tywyll a'i chynffon hir a thrwchus, mae prydferthwch y Pathew wedi'i gwneud yn weddol adnabyddus ymysg y cyhoedd, a dros y blynyddoedd mae'r anifail wedi ymddangos mewn sawl stori ffuglen boblogaidd, megis *Alice in Wonderland.* Am famal mor eiconig, mae'n syndod felly'r cyn lleied o bobl sydd wedi eu gweld - dwi eto i weld un fy hun! Yn debyg i'n cnofilod eraill, mae ecoleg y Pathew yn ei gwneud yn enwedig anodd ei gweld. Ond am greadur mor ddirgel - sy'n pwyso ond tua dwy geiniog dwy bunt - mae bywyd yr anifail hwn yn hynod o ddiddorol.

Wrth feddwl am flynyddoedd ein harddegau, dwi'n siŵr fod llawer ohonom ag atgofion o dreulio amser helaeth yn ein gwelyau ac yn cysgu. Wel, ni fydd y Pathew erioed yn ein beirniadu - gan fod yr anifeiliaid yma yn treulio tua 7 mis y flwyddyn yn cysgu yn eu nythod dail! Yn wahanol i'r gred boblogaidd, dim ond nifer fach o anifeiliaid Prydain sy'n gaeafgysgu, efo dim ond y draenogod a'r ystlumod yn ymuno â'r Pathew i dreulio misoedd caled y gaeaf yn breuddwydio'n barhaus. Ond mae cyflwr y Pathew wrth gysgu yn wahanol iawn i ni. Yn ystod y gaeaf mae tymheredd eu cyrff yn disgyn i ryw 4$^{o}$C, ac mae eu cyfradd calon ac anadlu yn disgyn 90%. Maent wedi esblygu'r arferiad yma oherwydd diffyg un peth pwysig yn ystod y gaeaf - bwyd.

Mae gan yr anifail yma ddiet amrywiol, ond gan fod bwyd mor brin yn y gaeaf, mae'n llawer haws iddynt gysgu. Ond hyd yn oed yn yr haf, maent ddim ond yn deffro wedi'r nos, sy'n gwneud eu gweld yn anoddach fyth i'w ffeindio! Ar ôl gorffen gaeafgysgu ar ddiwedd mis Ebrill, maent yn bennaf yn bwyta blodau am weddill y gwanwyn, yna'n ffocysu ar drychfilod yn ystod yr haf, cyn troi at ffrwythau a chnau cyn cychwyn tymor arall o aeafgysgu. Gan fod gwahanol goed a llwyni yn blaguro ac yn ffrwytho ar wahanol adegau, mae'n bwysig iawn i boblogaethau Pathew bod yna amryw o blanhigion o'u cwmpas. Maent yn enwedig yn hoff o lefydd efo digon o gyll, y ddraenen wen, gwyddfid a mieri. Ac yn wahanol i gnofilod eraill y wlad, nid ydy'r creadur yma'n hoff iawn o grwydro ar y llawr, felly mae hefyd yn bwysig bod y llystyfiant yn ddigon trwchus iddynt i deithio'n hawdd o un llwyn i'r llall.

Dim ond unwaith y flwyddyn mae'r Pathew yn bridio, a gan amlaf byddant yn rhoi genedigaeth i 4-5 o rai bach yn ystod mis Awst. Er bod ganddynt lawer o elynion, fel cathod, tylluanod a'r wenci, tymereddau caled y gaeaf sy'n gyfrifol am farwolaeth y mwyafrif. Ond os gallent gadw'n dwym, gallent fyw hyd at bum mlwydd oed - llawer hirach na'i pherthnasau eraill ym Mhrydain.

Heddiw mae'r Pathew dan beryg, ac mae niferoedd o bosib wedi haneru ers cychwyn y ganrif. Pam felly? Mae yna sawl rheswm. Mae llawer o'n llwyni yn cael eu torri yn rhy aml i'r planhigion ynddynt i flaguro a ffrwytho i gynnig bwyd iddynt. Yn Lloegr mae gormodedd o geirw hefyd yn gor-gystadlu am fwyd, ac mae newid hinsawdd wedi arwain at fwy ohonynt yn ddeffro'n rhy fuan cyn y gwanwyn. Yng Nghaerdydd, siŵr o fod dim ond yng nghoedwigoedd gorllewinol yn ddinas y gallwch eu gweld heddiw. Mae rheolau llym ynglŷn â'r rhywogaeth yma, fodd bynnag, felly gwell peidio chwilio am eu nythod yn ystod y gaeaf os nad ydych eisiau ddirwy o bum mil punt!



*Llun: Ettore Balocchi*

# Cymdeithas Cymru-Ariannin



Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-Ddwyrain wedi trefnu i Ceris Gruffudd ddod atom i Gapel Bethel, Rhiwbeina nos Fercher Tachwedd 16eg am 7.30pm i sôn am ei gysylltiadau gyda Phatagonia.

Dewch draw felly:

1. chi fyfyrwyr y bu Ceris yn rhan o drefnu'ch ymweliadau i'r cyrsiau dysgu Cymraeg. Mae Ceris yn amcangyfrif fod tua 130 wedi bod ar y cyrsiau hyn ar hyd y blynyddoedd.
2. chi bobl sy wedi ymweld â'r Wladfa. Cyfle i chi rannu'r profiadau gawsoch chi yno.
3. chi bobl sy'n bwriadu ymweld â'r Wladfa. Cyfle da i chi gael blas ar y lle cyn mynd ac urhyw un arall wrth gwrs.

Bu Ceris yn ymwybodol o fodolaeth y Wladfa ers blynyddoedd ond o tua 1976 y dechreuodd ei gysylltiadau o â'r wladfa. Teithiodd allan gyda Chôr Godre'r Aran ym 1977, y cyntaf o ddeuddeg ymweliad - yr olaf yn 2017 – pan roddodd y pandemig stop ar y teithio yn y cyfnod diweddar. Daeth yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas yng nghyfarfod blynyddol 1996 ac yn ysgrifennydd - yn dilyn marwolaeth Shan Emlyn - ym 1998. Mae o newydd ymddeol eleni.

Mae gan Ceris stôr o atgofion am ei gysylltiadau â Phatagonia a bydd y cyfarfod ym Methel, Rhiwbeina yn agored i bawb i ddod i wrando arno'n sôn am rai ohonyn nhw.

Cewch noson ddifyr a gweinir paned neu mate.



# Clwb Canna

**AIL-LANSIO CLWB CANNA!**

Ar ôl dros ddwy flynedd hir o fethu mynd allan i ddigwyddiadau a mwynhau a chymdeithasu, bydd Clwb Canna yn cael ei ail-lansio nos Wener 14 Hydref gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc a'r band lleol Wigwam.


Mae wedi bod yn gyfnod llwm a thawel iawn o ran digwyddiadau cymdeithasol, ond os am ddechrau rhywbeth, wel dyma'r ffordd i'w ddechrau go-iawn. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at y gig cyffrous hwn, ac at gwrdd eto â ffrindiau hen (wel 'chydig bach yn hŷn) a gwneud ffrindiau newydd.

Mae'r gig yn cael ei gynnal yn y Clwb Rhyddfrydol yng nghanol Treganna, ac yn gyfleus iawn i'w gyrraedd. Bydd y noson yn dechrau am 7.30, ond dewch yn gynnar, codwch beint, bachwch sêt, a steddwch nôl. Neu dawnsiwch a chyd-ganwch. Mae'n argoeli i fod yn noson heb ei hail.

Gallwch brynu eich tocynnau yn Caban, Pontcanna am £12. Galwch heibio'n fuan, gan eu bod yn dechrau gwerthu'n barod.

Dyma'r noson gyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu yn yr ardal dros y misoedd nesaf. Bydd ambell beth i gynhesu eich calon dros y gaeaf, neu gwis bach i gynhesu celloedd eich ymennydd. Cadwch eich llygaid ar y cyfryngau cymdeithasol am ragor o fanylion.

Gan edrych ymlaen at weld pawb.



# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



Gwnaeth y Canghellor newydd, Kwasi Kwarteng, gyhoeddi nifer o fesurau yn ei ddatganiad economaidd ar 23 Medi 2022. Dyma grynodeb o'r prif gyhoeddiadau:

**1. Treth incwm ac Yswiriant Gwladol**

- Cyfradd sylfaenol treth incwm yn cael ei ostwng o 20% i 19% o fis Ebrill 2023.
- Cyfradd dreth o 45% wedi'i ddiddymu (gydag un cyfradd uwch o 40% yn weithredol o fis Ebrill 2023).
- Bydd y cynnydd o 1.25% yn nghyfraddau Yswiriant Gwladol ar gyfer gweithwyr, cyflogwyr a'r hunangyflogedig yn cael ei wrthdroi o 6 Tachwedd 2022.
- Yn wreiddiol, o fis Ebrill 2023, roedd disgwyl i bensiynwyr oedd yn gweithio i dalu 'Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol' o 1.25% ar eu hincwm gwaith, ond mae'r treth yma wedi cael ei ddileu.
- Bydd yr 1.25% ychwanegol o dreth ar ddifidendau hefyd yn cael ei ddileu o fis Ebrill 2023.
- O fis Ebrill 2023, ar gyfer unigolyn sy'n ennill £20,000 y flwyddyn, byddant yn talu tua £160 yn llai o dreth y flwyddyn, tra bydd unigolyn sy'n ennill £100,000 yn talu tua £1,500 yn llai o dreth.

**2. Cyhoeddiadau allweddol eraill**

- Cyfradd treth gorfforaeth yn aros ar 19% (gan ddileu'r cynnydd a gynlluniwyd yn wreiddiol o 19% i 25% o fis Ebrill 2023).
- Llymhau rheolau Credyd Cynhwysol, gyda lleihad i fudd-daliadau os nad yw pobl yn cyflawni ymrwymiadau penodol i ddod o hyd i swydd.

**3. Beth oedden ni'n gwybod yn barod?**

- Busnesau i gael cymorth ar gyfer eu costau ynni, gyda phrisiau yn sefydlog am 6 mis o fis Hydref ar tua hanner y gost ddisgwyliedig.
- Mae Banc Lloegr wedi cynyddu'r cyfradd llog sylfaenol o 1.75% i 2.25% (a disgwylir cynnydd pellach yn y dyfodol agos)
- Parhau mae'r chwyddiant uchel, sydd ar hyn o bryd tua 10%, ac mae'r bunt yn parhau'n wan yn erbyn y ddoler a'r ewro (gyda gwanhau sylweddol yn dilyn cyhoeddiadau'r Canghellor).
- *Byddwn yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am gyhoeddiadau economaidd y Llywodraeth ac unrhyw newidiadau sylweddol i ganllawiau treth!*

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, Medi'r 19 yng Nghapel Bethel croesawyd pawb gan ein Is-gadeirydd, Carol O'Donnell, i gyfarfod cynta'r tymor. Cydymdeimlwyd a nifer o'r aelodau yn dilyn profedigaeth a llongyfarchwyd eraill am ychwanegiadau i'r teulu.

Oherwydd amgylchiadau fe groesawyd siaradwr annisgwyl i'r cyfarfod sef Endaf Emlyn, ac fe dreuliwyd cyfnod arbennig o ddiddorol yn olrhain hanes ei deulu ag yntau ym Mhwllheli ag ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru. Roedd ei sgwrs yn dilyn ei yrfa yn gweithio gyda'r cyfryngau, ac roedd hi'n amlwg bod hoffter a dawn gerddorol ynddo ef a'r teulu. Cafodd y fraint o gyd weithio gydag enwau mawr o'r byd pop a cherddoriaeth yn gyffredinol. Roedd amryw o'r gynulleidfa yn ei gofio yn cyflwyno *Disg a Dawn*, ag yntau bryd hynny yn poeni am brinder recordiau Cymraeg. Bu'n gweithio i Gwmni EMI gan greu clasuron o recordiau ei hun yn arbennig "Salem".



Wrth iddo ddatblygu ei yrfa cafodd y cyfle i gydweithio ag actorion a llenorion amlwg Cymru ac yntau, gyda dyfodiad S4C, yn cael cyfle i gyfarwyddo dramâu a ffilmiau clasurol. Braf oedd cael ein hatgoffa am oes aur y rhaglenni Cymraeg, megis *Un Nos Ola Leuad, Gadael Lenin, Gaucho* a'r *Dyn 'Nath Ddwyn y Dolig.*

Diolchwyd iddo ar ein rhan gan Carol a diolchwyd iddo yn arbennig am sefyll yn y bwlch ar fyr rybudd ac am ei gyfraniad i adloniant Cymru.

# Merched y Wawr Y Felin

Braf oedd gweld aelodau hen a newydd ar ddechrau tymor newydd dan ofal Glenys Evans ein Cadeirydd newydd. Diolchwyd i'r cyn gadeirydd Heulwen Jones, Eiry Jones (Ysgrifenyddes) a Mair Robbins (Swyddog y Wasg) am eu gwaith trefnu ar y pwyllgor a chyflwynwyd blodau iddynt gan y pwyllgor newydd. Rydym hefyd mor falch bod Heulwen wedi cael ei hethol yn Lywydd rhanbarth y de ddwyrain.

Cafwyd noson arbennig o ddifyr yng nghwmni'r artist Anthony Evans, brodor o Gaeglas, Cross Hands yn wreiddiol ond sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Rhannodd sut y cafodd ei fagu mewn cymdeithas lofaol glos ac yn ddi-os dylanwad ei Wncwl Gethin a oedd wedi gweld bo ganddo ddawn i arlunio o oedran cynnar a anogodd e i fynd i astudio celf. Wedi cyfnod yng Ngholeg y Drindod, a chyfnodau dysgu yn y Rhondda ac yn Ysgol Glantaf fel Pennaeth yr adran gelf, dyma gymryd y cam i weithio fel artist gan agor stiwdio Canfas yn Nhreganna Caerdydd yn 1990 ac yno mae wedi bod hyd heddiw yn gweithio fel artist ac yn cynnal arddangosfeydd.



Dangosodd enghreifftiau o'i waith o dirluniau, capeli ac adfeilion mae wedi dod ar eu traws wrth deithio dros Gymru. Nodwedd bwysig o'i waith yw'r defnydd o eiriau a barddoniaeth a sut mae yn mynd ati i weu'r rhain i mewn i'r darlun - esiampl o hyn yw'r darlun iddo greu ar gyfer Myrddin ap Dafydd, cyfaill annwyl iddo fel rhan o'r gyfres *Cymru ar Gynfas*.

Gwahoddwyd ni fel cangen i ymweld â sioe y bydd yn curiadu yn Mis Mawrth 2023 sef cyfuniad o farddoniaeth a darluniau ac rydym eisoes yn edrych ymlaen yn eiddgar fel Cangen i gael gwledd arall i'r llygad. – orielcanfas.co.uk

Os hoffech ymuno gyda Changen y Felin rydym yn cwrdd ar drydydd dydd Iau'r mis am 7.30 pm yn Festri Capel y Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd – gallwch fod yn aelod o fwy nag un gangen!

Am fwy o wybodaeth ebostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810363232

# Merched y Wawr Bro Radur

Llywydd newydd Cangen Merched y Wawr Bro Radur eleni ydy Mary Nicholas. Wrth gyflwyno'r cerddor amryddawn Mei Gwynedd, nos Fercher, Medi 7fed aeth hi â ni yn ôl i lwyfan Canolfan y Mileniwm Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Roedd Mary yn aelod o Gôr yr Eisteddfod oedd yn canu addasiad newydd roc a rôl gan Mei Gwynedd a John Quirk o 'Teilwng yw'r Oen' Handel. Arweiniwyd y côr, y gerddorfa a'r band (oedd yn cynnwys Mei) gan Jeff Howard. Roedd yn berfformiad cyffrous a mentrus.

Roedd yr aelodau yn chwilfrydig i wybod am gefndir cerddorol ein gwestai. Yn 16 oed aeth o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon i ddilyn cwrs 2 flynedd ar Dechnoleg Cerddoriaeth ym Manceinion [yr unig gwrs cerddorol iddo ei wneud!] ac yna 2 flynedd arall yn dilyn cwrs Crochenwaith. Cyrhaeddodd Gaerdydd ugain mlynedd yn ôl ac mae bellach wedi datblygu'n gerddor llwyddiannus proffesiynol, yn diwtor [Sesiynau Ukelele ers 2013, grwpiau ifanc fel Hyll, Wigwam, Mali Haf] a chynhyrchydd, gyda'i stiwdio recordio JigCal ei hun yn Y Tyllgoed ers 10 mlynedd. Mae'n gyfarwyddwr cerdd 'Cân i Gymru' ers dros 10 mlynedd.



Cyrhaeddodd Mei Neuadd Eglwys Dewi Sant, Radur gyda'i wên hyfryd a'i gitâr acwstig. Roedd wedi ffurfio ei fand cyntaf, Y Beganiffs, pan yn 14 oed; bu ef a'i frawd, Osian Gwynedd, yn aelodau o'r grŵp Big Leaves, wedyn ffurfion nhw Sibrydion; Mei oedd prif gitarydd The Peth ac Endaf Gremlin; mae'n gitarydd yn y band gyda Geraint Jarman a hefyd gydag Elin Fflur ers rhyw 6 mlynedd (gan gyfansoddi ar ei chyfer hefyd). Ni, Ferched y Wawr, oedd ei grŵp canu Medi 7fed! Yn frwdfrydig ac yn annwyl arweiniodd Mei ni drwy ddatganiadau jasaidd o Ar lan y Môr, Dw i'n Mynd 'Nôl i Flaenau Ffestiniog, Cân yr Ysgol, Lleucu Llwyd, Cân Merched y Wawr [addasiad y gwestai] a gorffen gydag Ysbryd y Nos.

GIG hwyliog a llawen yng nghwmni cerddor dawnus i agor ein tymor newydd.

*Meri Griffiths*

# Malcolm Thomas yn rhannu rhai o'i atgofion

*Malcolm Thomas oedd pennaeth cyntaf Ysgol Glantaf, a thros y blynyddoedd fe gyfrannodd yn helaeth i dwf a datblygiad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn garedig iawn, cytunodd â chais Gwen Emyr i'w gyfweld drwy gyfrwng e-bost.*

**Gwen Emyr**
***Diolch i chi am gytuno â'm cais i'ch cyfweld ar gyfer darllenwyr Y Dinesydd. Tybed allwn ni ddechrau drwy gael cip ar eich magwraeth a'r dylanwadau cynnar?***



Pentref glofaol Pen-y-groes, ardal a chymuned glo carreg Sir Gaerfyrddin, oedd fy nghynefin. Cafodd fy magwraeth yno ddylanwad mawr ar fy nghymeriad, ac mae'r bobl a'r profiadau yn dal yn glir yn y cof hyd heddiw.

Cafodd fy mrawd a minnau rieni arbennig ar aelwyd hapus a Christnogol. Roedden nhw'n rhoi cymorth parod a chefnogol ar bob achlysur, ac yn hael eu cymwynas a'u gwasanaeth yn y pentref pan oedd angen. Fel nifer o rai eraill yn yr ardal, glöwr oedd fy nhad a weithiodd dan ddaear am hanner can mlynedd. Nid oedd am i ni ein dau ei ddilyn, gan bwysleisio bod addysg yn agor cyfleoedd eraill i ni, a dyna a wireddwyd yn Ysgol Gynradd y pentre a llwyddiant yn yr 11+, cyn ymuno ag Ysgol Ramadeg enwog Dyffryn Aman a chael addysg academaidd dda yno.

Cyfnod y Rhyfel oedd adeg fy addysg gynradd; ie, cyfnod y llenni trwm duon, y mygydau nwy, y llyfrau dogni, y faciwîs o Lundain yn cael lloches a'r bomiau dinistriol a dieflig yn syrthio ar Abertawe – a hynny i gyd yn peri ofn.

Roedd Capel Mynydd Seion yn rhan allweddol o fy ieuenctid, fy rhieni yn aelodau ffyddlon, fy nhad yn ddiacon a minnau yn un o bymtheg o ffrindiau arbennig yn yr Ysgol Sul.

Roedd ardal y glofeydd yn gefnogol i'r Blaid Llafur.

Iec, yfnod ieuenctid hapus a chyfle i gefnogi Llanelli (rygbi), Abertawe (pêl droed) a San Helen (criced).

***Pa brif atgofion sy gennych am eich gyrfa golegol? Pa ddylanwadau wnaeth eich arwain at ddewis gyrfa yn y byd addysg?***

Ennill Ysgoloriaeth a chael fy nerbyn i Brifysgol Cymru Abertawe a mwynhau nifer o brofiadau dymunol iawn yno dan ddylanwad yr ysgolheigion Glanmor Williams a Stephen J. Williams ac eraill. Graddio gydag Anrhydedd a chael cyfle i aros yno i wneud ymchwil a darlithio rhan amser, ond roedd 'na ysfa ynof i ddysgu, ac fe wnaeth fy mhrofiad dysgu yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth gadarnhau hynny.

***Cofiaf chi'n bennaeth yn Ysgol Cathays pan oeddwn yn dilyn cwrs gwerthfawr o ymarfer dysgu. O'r ysgol honno, aethoch ymlaen i ysgwyddo cyfrifoldebau Pennaeth cyntaf Ysgol Gyfun Glantaf. Pa atgofion sy gennych am y cyfnod hwnnw?***

Braint ac anrhydedd yn fy ngyrfa oedd cael dysgu mewn pedair ysgol yng Nghaerdydd a'r Fro rhwng 1959 a 1995. Bûm yn Bennaeth Hanes ac Economeg yn Ysgol Ramadeg a Chyfun Yr Eglwys Newydd tan 1971, yn Ddirprwy Brifathro yn Ysgol San Cyres ym Mhenarth tan 1974, yn Brifathro ifanc ar Ysgol Uwchradd Cathays tan 1978, ac yn Brifathro cyntaf Ysgol Gyfun Cymraeg, Caerdydd a'r Fro tan Hydref 1995. Rwy'n dal mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion y pedair ysgol a rhai o'r athrawon sy'n dal yn fyw. Cefais brofiadau i'w trysori, gan gynnwys bod yn rhan bwysig yn addysg y myfyrwyr gan agor cyfleoedd gyrfa iddynt.

***Yn nyddiau cynnar Ysgol Gyfun Glantaf, beth oedd rhai o'r prif heriau a datblygiadau?***

Roeddwn yn hapus yn Cathays, ac ni chynigais am swydd Prifathro yn Ysgol Glantaf, ond cefais wahoddiad sydyn gan y Pwyllgor Addysg i symud lawr i Ystum Taf.

Roedd gwrthwynebiadau niferus yn lleol yn erbyn lleoliad yr ysgol, a llythyron yn y Wasg. Roedd rhai yn gwrthwynebu'r galw am addysg ddwyieithog yn y ddinas. Ond safodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Emyr Currie Jones, yn gadarn.

Ar 5ed Medi agorwyd yr ysgol gyda 99 disgybl, chwe athro, tair athrawes a Bryan James yn ddirprwy. Roeddwn yno yn gynnar ar y bore cyntaf i groesawu'r disgyblion oddi ar y bysiau, ac roedd camerâu'r cyfryngau yno. Yr unig brotest a gefais oedd gan Sinabee, geneth o Pakistan, a'i ffrindiau yn cario baner 'Welshies go home'!

Beth amser yn ôl gwelais Sinabee yn y pentre. Rhuthrodd ataf gan wenu a dweud bod tri o'i phlant yn cael addysg Gymraeg. Llwyddiant onid e?

Roedd yn gyfnod cyffrous a heriol, ond yn gyfle i arloesi, tyfu a datblygu. Cawsom lawer o heriau i'w hwynebu, e.e. Ysgol Glantaf Gymraeg yn tyfu, ond yr ysgol Saesneg yng Nglantaf yn edwino dros gyfnod o dair blynedd cyn cau. Rhaid oedd ennill parch a chefnogaeth trigolion Ystum Taf a'r ardal.

Her arall oedd gwneud ein bodolaeth fel ysgol yn amlwg yn y ddinas a'r fro ac yn genedlaethol. Nid oeddwn am i'r ysgol fod yn ynysig, ond rhaid oedd tanio fflam i gystadlu.

Her arall i ni oedd gloywi iaith, gan gofio bod canran uchel o'r plant yn dod o gartrefi Saesneg di-Gymraeg.

Her holl bwysig oedd profi i'r cyhoedd bod manteision arbennig i addysg ddwyieithog, a'i bod yn agor cyfleoedd gyrfaol niferus.

*(i'w barhau)*

# Ysgol Plasmawr

**Eisteddfod Tregaron ac Ysgol Plasmawr**

Am y tro cyntaf ers 2019, cafodd yr Eisteddfod Genedlaethol ei chynnal - yn Nhregaron, a bu cryn dipyn o gynrychiolaeth gan Ysgol Plasmawr; yn unigolion, yn bartïon ac yn gorau.

**Unigolion**

Llongyfarchiadau enfawr i'r unigolion a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod. Bu Morus Jones yn amlwg iawn yn y cystadlaethau dawns. Enillodd Morus y clocsio unigol i fechgyn, y ddeuawd glocsio gyda'i frawd Daniel, a bu Morus, Iestyn a Daniel yn fuddugol yn y grŵp clocsio gyda Bro Taf. Llongyfarchiadau i Efan Williams yn yr Eisteddfod gyda'r cystadlu a hefyd y perfformio. Hyfryd hefyd oedd gweld disgyblion Plasmawr yn perfformio yn y band Stafell Fyw, yn perfformio ar y maes a hefyd ym Maes B!

**Côr Bechgyn Hŷn**

Ar ddydd Mercher, cystadlodd Côr Bechgyn Hŷn Plasmawr yn y gystadleuaeth Ieuenctid yn erbyn Ysgol Gerdd Ceredigion a Chôr Penweddig. Roedd y côr wedi bwriadu cystadlu nôl yn 2020 yn dilyn eu llwyddiant yn yr Urdd yn 2019, ac roedd yn hyfryd bod ambell unigolyn wedi dod nôl i ganu gyda'r côr presennol. Enillodd y côr yr ail wobr yn y gystadleuaeth a chafwyd canmoliaeth fawr am eu perfformiad gan y beirniaid a gan nifer o'r gwrandawyr/gwylwyr. Hyderaf fod y côr wedi mwynhau gweddill yr Eisteddfod wrth iddyn nhw ymlwybro draw i Faes B ar y nos Fercher...

**Athrawon a'r gymuned ehangach**

Yn ogystal â disgyblion yr ysgol, roedd cynrychiolaeth gref gan athrawon Plasmawr a'r gymuned ehangach wrth iddynt ganu mewn corau neu bartïon. Fe gystadlodd Mr Dion Davies, Mrs Rhian Harding a Mrs Fflur Rowlands gyda Cywair yn y gystadleuaeth gorawl Adloniant ar y dydd Sul lle enillodd y côr y wobr gyntaf dan arweiniad Islwyn Evans. Bu Mr Dion Davies, Mr Eirian Jones a Miss Awel Williams hefyd yn canu gyda Chôrdydd yng nghystadleuaeth y corau cymysg, ynghyd â rhieni a chysylltiadau agos eraill i'r ysgol, gan ennill y wobr gyntaf. Yn ogystal, Côrdydd ddaeth yn Gôr yr Ŵyl a hoffwn eu llongyfarch yn fawr iawn ar eu llwyddiant. Hyfryd hefyd oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau Plasmawr mewn corau eraill fel Côr Canna, Côr Hen Nodiant, Côr Nefi Blŵ, Côr Alawbama, Bechgyn Bro Taf, Côr Meibion Taf a grwpiau dawnsio Bro Taf.



**Ruby Evans**

Mae Ruby Evans o flwyddyn 11 wedi serennu ym myd gymnasteg ers blynyddoedd bellach. Eleni, mae wedi cael tipyn o lwyddiant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ym mis Chwefror enillodd Ruby deitl Pencampwraig 'All Round' Cymru. Gwobrwywyd hi fel pencampwraig 'All Round' Prydain a Phencampwraig bariau Prydain ym mis Mawrth.

Yn sgil y llwyddiant uchod doedd dim syndod o gwbl bod Ruby wedi cael ei galw i hyfforddi gyda'r tîm Prydeinig. Cafodd ei dewis i gynrychioli Prydain ddwywaith yn ystod yr haf. Ym mis Gorffennaf roedd Ruby yn cystadlu yn Gemau Olympaidd Ieuenctid y Byd. Llwyddodd Ruby i gyrraedd rownd derfynol y llofnaid ac ennill y fedal arian yn y gystadleuaeth.

Yn Awst, roedd Ruby yn Munich, yn cynrychioli Prydain eto ym mhencampwriaethau Ewropeaidd. Cyrhaeddodd Ruby rownd derfynol y llawr yn ystod y gystadleuaeth.

Rydym yn falch iawn o lwyddiant Ruby ac yn dymuno pob dymuniad da iddi eleni. Mae eisoes wedi cael eu dewis i hyfforddi gyda sgwod hŷn gymnasteg Prydain yn Lilleshall mis yma.

Does dim amheuaeth bod dyfodol disglair iawn o flaen Ruby.



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Chwarae Pêl-foli i Gymru**

Pe bae chi'n digwydd mynd am dro i Barc Fictoria, fe fyddech yn siwr o sylwi bod yr hen glwb bowls wedi diflannu ac yn hytrach na'r llain werdd, yr hyn sydd yno erbyn hyn yw cyrtiau tywodlyd a rhwydi uchel.

Triawd o chwaraewyr a hyfforddwyr pêl-foli traeth o Gaerdydd sydd wedi mentro prynu'r les gan Gyngor Caerdydd, a sefydlu'r clwb - y *Cardiff Beach Volleyball Club* - fel adnodd i ddenu pobol ifanc at gêm sy'n agos iawn at eu calonnau. Bellach mae Carl Harwood a Mike a Julia Constantinou yn gyfrifol am glwb bywiog sy'n cynnig hyfforddiant bron yn nosweithiol i chwaraewyr o bob oedran a phob safon.



***Bechgyn Cymru gyda'u hyfforddwr Jonathan Fray Ruiz***

Roedd dau o'r rheiny gafodd gyfle i chware i Gymru yn ddisgyblion yn ysgol Glantaf a Phlasmawr. Fe ddaw mam Sam Evans o'r Iseldiroedd yn wreiddiol lle'r cafodd hi flas mawr ar bêl-foli, a bellach mae Sam, sy'n ddisgybl Blwyddyn 9 yng Nglantaf, yn dilyn ei fam i fyd pêl foli traeth cystadleuol. Madog Hammond yw'r llall, disgybl lefel A yn ysgol Plasmawr ac mae'n sicr yn un sydd wedi elwa gryn dipyn o gael clwb mor fywiog ar drothwy'r drws. Mae'n ymarfer yn gyson ac yn dysgu llawer iawn gan y criw hynod ryngwladol sydd wedi'u denu i ymarfer yng Nghaerdydd a gwneud yn fawr o bob hyfforddiant sydd ar gael. Yn 17 oed, roedd cael fest - ie, fest nid crys - Cymru dan 18 yn y twrnament fis Awst yn golygu cryn dipyn iddo.

Dros yr Haf, fe lwyddodd y criw i ddenu twrnament y 'Commonwealth Cup Juniors' i Gaerdydd, gyda thimau Iwerddon a'r Alban yn cael croeso cynnes iawn a llety yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae, a charfannau Gogledd Iwerddon a Lloegr yn canmol yr adnoddau ardderchog sydd gyda ni yng Nghaerdydd. Roedd hi'n ornest aruthrol o gystadleuol ar un o benwythnosau poethaf yr Haf ac roedd gweld y criw ifanc yn eistedd ar ddiwedd diwrnod o ymlafnio yn y tywod i gyd-fwyta yn yr awyr iach yn atgoffa rhywun o luniau'r hen ddyddiau yng ngwersyll Llangrannog!

Diolch i'r Medi sych a braf i ni'i gael hyd yma, mae'r criw yn dal i'w gweld yn ymarfer gyda'r nosau ond dros y gaeaf, tymor y gêm dan dô fydd hi, gyda'r hyfforddiant yn symud i ardal Trefforest. Ond os gwelwch chi'r criw wrthi ym Mharc Fictoria, yn gwneud yn fawr o ambell noson braf eto i ddod, ewch draw i ddweud helo ac i holi mwy. Mae'r giât yn agored led y pen, croeso cynnes i chwaraewyr chwilfrydig newydd - y tala y gore! - ac os byddwch chi'n lwcus, paned i'w chael.

*Betsan Powys*

## Dyddiad Cau Yr Eisteddfod

Mae dyddiad cau cystadlaethau gwaith cartref eisteddfod 2023 yn agosáu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich ceisiadau at cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru erbyn dydd Gwener 2 Rhagfyr. Gallwch hefyd anfon eich cais drwy'r post, mae'r manylion ar y wefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru.

Cofiwch fod manylion y cystadlaethau llwyfan hefyd ar y wefan. Os ydych yn bwriadu cystadlu, gofynnwn i chi gofrestru, er mwyn i ni wybod faint o bobl i'w disgwyl ar y diwrnod. Bydd rhagbrofion ar gyfer cystadlaethau unigol lle bo mwy na 5 yn cystadlu. Gallwch gofrestru i gystadlu ar y wefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru.

Mae hefyd angen gwirfoddolwyr arnom er mwyn gallu cynnal yr eisteddfod yn ddiogel ar y diwrnod. Os ydych chi'n gallu gwirfoddoli am awr neu ddwy neu fwy ar y diwrnod, anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru yn nodi beth allwch chi wneud.

**Tiwtor Mathemateg graddedig, profiadol a llwyddiannus iawn.**

Llongyfarchiadau llon i'm myfyrwyr ar eu llwyddiant ardderchog eto eleni.
Mae ychydig fylchau ar ôl i gychwyn **Mis Hydref** eleni i fyfyrwyr **Blwyddyn 12, Blwyddyn 10** neu **Flwyddyn 9/8.**

Mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnal trwy gyfrwng ZOOM ar hyn o bryd.

Am fanylion pellach cysylltwch â Gwilym Wyn Roberts **07 968 463 737** neu **serenagwill@btinternet.com**

## Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

## Cynllun Agor y Llyfr

**Bagiau Mawr o Arian!**

Mor braf oedd cael ail-afael yn y gwaith o fynd i ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd yn ystod mis Medi i gyflwyno straeon Beiblaidd yn weledol o dan gynllun Agor y Llyfr (Cymdeithas y Beibl), a hynny am y tro cyntaf ers codi cyfyngiadau Covid-19. Gyda brwdfrydedd, gwisgoedd ac ambell i aelod newydd, cawsom groeso mawr gan blant Ysgol Glan Morfa wrth i ni lefaru ac actio hanes Bagiau Mawr o Arian! (Dameg y Talentau, Mathew 25) Bu'r disgyblion yn brysur yn cyfri'r bagiau a



ymddiriedwyd i dri gwas y dyn cyfoethog, a'r bagiau a roddwyd yn ôl iddo. Neges y stori i'r disgyblion? – bod angen i ni wneud yn fawr o bob cyfle a gawn, wrth ddefnyddio'n talentau, wrth wneud ein gwaith yn yr ysgol, neu wrth helpu eraill.

Ydych chi'n aelod yn un o eglwysi Cymraeg Caerdydd?

Tybed fyddech chi'n gallu gwneud yn fawr o ryw dalent a roddwyd i chi gan Dduw? Does dim angen bod yn Richard Burton – mae'r perfformiadau yn rhai syml a byr. Ond o gynyddu nifer y timoedd, gellid cyrraedd mwy o ysgolion a mwy o ddisgyblion gyda negeseuon y Beibl.

Am fwy o wybodaeth neu os am wirfoddoli, e-bostiwch atudur@gmail.com neu cliciwch ar www.biblesociety.org.uk/cymru/agor-y-llyfr

## Clonc newydd CECC

Bydd clonc newydd yn dechrau brynhawn Iau, 13 Hydref, rhwng 2.30 a 3.30 yn nhŷ bwyta llawr uchaf John Lewis, Yr Ais. Croeso cynnes i bawb.

# Merched y Wawr Caerdydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2022-23 Merched y Wawr Cangen Caerdydd ar 13 Medi dan arweiniad y Llywydd newydd, Ceri Hughes. Ymaelododd nifer foddhaol o bobl ar y noson, yn cynnwys aelodau newydd sbon.

Ein siaradwr gwadd oedd Gwyn Loader. Mae Gwyn yn Brif Ohebydd Newyddion S4C a bu'n gweithio cyn hynny ar *Y Byd ar Bedwar*. Mae ei bortffolio yn amrywio o amlygu'r dioddefaint yn Nepal, i weithgareddau'r Seiri Rhyddion yng Nghymru, ac i fethiannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf.

Testun ei gyflwyniad oedd 'Gohebu ar ryfel trwy gyfrwng y Gymraeg: Pam trafferthu?' Ei ffocws oedd y rhyfel yn Wcráin ac esboniodd cymaint oedd yn dyheu am gael ymweld â'r wlad i adrodd ar y sefyllfa. Ym myd y cyfryngau, y criwiau Saesneg sy'n cael blaenoriaeth o ran mynd i'r rheng flaen ac mae hyn yn rhwystredig am fod Gwyn yn credu'n gryf y dylai cynulleidfaoedd gael yr hawl i glywed sylwebaeth yn eu hiaith eu hun a gweld materion y byd o bersbectif Cymraeg.

Heddiw, mae'r cyfryngau'n hollbresennol ym mywydau pobl ac mae newyddion yn cyrraedd yn ddisyfyd ac yn ddi-baid. Er mwyn cynnal diddordeb pobl mewn materion hirbarhaol, mae'n rhaid chwilio am enghreifftiau personol y gall pobl uniaethu â nhw, yn ogystal â meithrin eu dealltwriaeth o'r darlun mawr.

O'r diwedd, yng Ngorffennaf eleni, cafodd Gwyn fynd i Wcráin am wythnos i weithio ar y rhaglen, *Wcráin: 150 Diwrnod o Ryfel*. Dangosodd ran o'r rhaglen i ni a chyfarfuom â gwraig ifanc a'i baban o Kharkiv oedd ar fin ffoi at fodryb yn Berlin am fod ei chartref a'i dinas wedi'u chwalu gan fomiau Rwsia. Roedd yn rhaid i'w gŵr aros yn Wcráin i ymladd dros ei wlad, a thrwy hanes y teulu bach hwn, amlygwyd yr erchylltra a'r dioddefaint personol a ddaw yn sgil rhyfel.

Yna ymwelodd Gwyn a'i griw â chartref plant yn Chernivtsi yn ne-orllewin y wlad lle nad oedd bomio nac ymladd. Serch hynny, gwelwyd enghraifft arall o effaith y rhyfel – cafodd 42 o blant amddifad o ardal Donetsk eu hanfon i'r cartref, ond ni ddarparwyd staff nac adnoddau ychwanegol. Roedd yn druenus gweld cyflwr y plant ac anobaith y staff wrth iddynt geisio ymaflyd â'r sefyllfa. Ond yng nghanol y dioddefaint, gwelsom lygedyn o obaith ar ffurf elusen o Wrecsam, Teams4U, sy'n helpu mentrau cymunedol i wella bywydau plant ledled y byd. Bu Gwyn yn siarad â Dr Ruth Wyn Williams, nyrs arbenigol a darlithydd o Fangor, a oedd yn digwydd bod yn y cartref ar y pryd yn cynnig cyngor a chymorth i'r staff.

Mor galonogol oedd clywed bod elusen o Gymru, a Chymraes sy'n gwirfoddoli gyda nhw, yn chwarae eu rhan wrth leddfu'r dioddefaint yn Wcráin. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cadarnhau barn Gwyn bod gohebu drwy'r Gymraeg yn taflu goleuni unigryw ar sefyllfa gyfoes – ac yn bendant yn werth y drafferth.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 6)

Fel y soniwyd y tro diwethaf, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Barri yn 1920. Roedd *Rhaglen Swyddogol* yr Eisteddfod honno'n drawiadol o wahanol i rai ein dyddiau ni ar sawl cyfrif. Yn un peth, oherwydd datblygiadau ym myd technoleg argraffu, mae rhaglenni'r 21ain ganrif yn fwy lliwgar o lawer. Maent hefyd yn fwy Cymraeg o gryn dipyn!

Er bod peth Saesneg yn rhaglenni'n cyfnod ni, nid yw i'w gymharu â'r defnydd o'r Saesneg yn rhaglen 1920, lle roedd llawer ohoni'n ddwyieithog ac ambell adran, megis rhai'r cystadlaethau ambiwlans, gwyddoniaeth, a chelf a chrefft, ynghyd â'r disgrifiadau o gynnwys sawl cyngerdd nos, yn uniaith Saesneg bron. Yr eithriadau mawr o ran bod yn uniaith Gymraeg oedd y manylion am gyfarfodydd Gorsedd y Beirdd ym Mharc Romilly (lle y nodwyd yn benodol 'Nad oes dim ond Cymraeg i'w ddefnyddio yn yr Orsedd'), y rhai am dri chyfarfod y 'Gymanfa Ganu Genedlaethol' dan arweiniad Dr Caradog Roberts a oedd yn cloi'r Eisteddfod ar y dydd Sadwrn, a'r wybodaeth am gyfarfodydd Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg a Chymdeithas Lyfryddol Cymru, ynghyd â thudalen uniaith Gymraeg (ac eithrio'r geiriau Lladin 'In Memoriam'!) i nodi marwolaeth Owen M. Edwards ym mis Mai 1920.

Peth arall trawiadol o wahanol am raglen 1920 o'i chymharu â rhai ein dyddiau ni yw cynifer o hysbysebion sydd ynddi – tua 140 o gyd, a'r cyfan bron yn uniaith Saesneg; a chan eu bod wedi eu gwasgaru trwy'r gyfrol (ar dudalennau'r chwith gan mwyaf), mae hynny'n ychwanegu'n sylweddol at y ffordd y mae'r Saesneg fel petai'n neidio allan atoch wrth ichi bori trwy'r rhaglen. Rhaid rhuthro i bwysleisio nad oedd rhaglen Eisteddfod y Barri yn eithriadol yn ei dydd yn hynny o beth. Pe baech yn troi at raglen Eisteddfod Caerdydd 1938, er enghraifft, yr un yw nifer yr hysbysebion, fwy neu lai, a phob un bron yn uniaith Saesneg; ac roedd llawer o'r rhaglen honno hefyd yn ddwyieithog.

Mae rhychwant yr hysbysebwyr yn rhaglen y Barri (fel yn rhaglen Caerdydd 1938, o ran hynny) yn eang iawn. Mae'n cynnwys cwmnïau llongau, allforwyr glo, modurdai, banciau, colegau, gwestyau, ffotograffwyr, trefnwyr gwyliau, fferyllwyr, ymgymerwyr, ynghyd â gwerthwyr sigarennau, offerynnau cerdd, gemwaith, dodrefn, dillad, bwydydd, llyfrau, yswiriant, ac yn y blaen, ac yn y blaen – gan gynnwys mwy nag un hysbyseb am 'artificial limbs'.

Un hysbyseb arbennig o ddifyr yw llun o ferch mewn gwisg Gymreig yn pwyntio at y geiriau 'Three Great Products of Wales. Mr. David Lloyd George, Coal, and last but not least, Naish's Delicious Chocolates and Wholesome Sweets' – sef hysbyseb ar gyfer cwmni Alfred E. Naish o Harpur Street, Caerdydd. Enwyd Harpur Street, gyda llaw, ar ôl William Harpur (1852–1917), peiriannydd a adawodd ei ôl yn drwm ar Gaerdydd mewn cyfnod o dwf aruthrol yn ei hanes. Cyfrannodd yn arwyddocaol, er enghraifft, at greu Parciau'r Rhath, Fictoria a Cathays ac at gynllunio Marchnad Caerdydd, Pont Clarence a'r Orsaf Bwmpio ar Heol Penarth. Meddai un erthygl goffa amdano: 'His mark is left on the lay-out of every inch of modern Cardiff.'

Digon trawiadol hefyd yw'r hysbyseb ar gyfer *Y Brython*, y papur newydd a gyhoeddwyd gan wasg Hugh Evans a'i Feibion, Lerpwl (sef argraffwyr rhaglen Eisteddfod Genedlaethol y Barri). Mae tair 'G' fawr ar ben y tudalen a'r rheini'n cynrychioli 'Graen', 'Grym' a 'Gwreiddioldeb', sef (meddid) y tri pheth a oedd wedi cadw'r papur yn fyw. Dyna wedyn yr hysbyseb am 'D'Arc's Grand Wax-Works Exhibition' yng Nghaerdydd – 'The Tussaud's of Wales' – a oedd yn Heol Eglwys Fair rhwng 1866 ac 1946. Yn ôl yr hysbyseb, dyma'r 'place to spend a happy hour', a hynny am bris mynediad o bum ceiniog yn cynnwys treth. Da hefyd oedd gweld 'Treasure's Toy and Fancy Stores', 58 Holton Road, Y Barri, yn ychwanegu at eu hysbyseb bron uniaith Saesneg, 'Siaredir Cymraeg yn Siop Mr. Treasure'.

Fel y gellid disgwyl, rhai o gyffiniau'r Barri a Chaerdydd oedd llawer iawn o'r hysbysebwyr, ond nid pob un; a thybed paham y penderfynodd y 'Goldsmiths & Silversmiths Company' yn Regent Street, Llundain, neu 'Mrs. Armstrong's, Lace Makers, Olney, Bucks.', neu Thomas & Co., Lerpwl ('The Leading Distributors of Basic Slag'), hysbysebu yn rhaglen Eisteddfod Genedlaethol y Barri?

Yr Aelod Seneddol, David Davies (1880–1944) – ŵyr David Davies, Llandinam, arloeswr dociau'r Barri – oedd Llywydd Prifwyl y Barri, a'i enw ef sydd ar ben 'Rhestr y Tanysgrifwyr' gyda'i rodd o £600 – swm sylweddol iawn y dyddiau hynny, a dweud y lleiaf!

Fel y nodwyd y tro diwethaf, yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri y cafwyd Pabell Lên am y tro cyntaf. Dyma hefyd y tro cyntaf i fegaffon gael ei ddefnyddio ar lwyfan y pafiliwn – ond nid yn llwyddiannus bob tro, mae'n amlwg! Roedd T. I. Ellis (mab Annie Hughes Griffiths, sy'n cael tipyn o sylw haeddiannol y dyddiau hyn oherwydd ei rhan yn Neiseb Heddwch Merched Cymru, 1923–24) wedi ei urddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Corwen yn 1919 dan yr enw 'Ap Cynlas' (yn yr un seremoni ag y cyflwynodd ei fam y Corn Hirlas) – Cynlas oedd enw cartref ei dad, yr Aelod Seneddol, Tom Ellis. Roedd T. I. Ellis yn dyst i seremoni'r Coroni yn Eisteddfod y Barri yn 1920, a dyma ei atgof (yn *Y Llenor* yn 1941) am W. J. Gruffydd yn traddodi'r feirniadaeth: 'Golygydd parchus Y Llenor, yn ei wisg fel un o swyddogion y Llynges, yn traddodi'r feirniadaeth ar bryddestau'r Goron; rhywun yn estyn megaffôn iddo,

ac yntau'n ceisio'i ddefnyddio er cyrraedd cyrrau pellaf y babell; ond ofer fu'r ymgais, a thaflwyd y megaffôn o'r neilltu.'

Enillwyd y Goron gan James Evans (1872–1943), glöwr a oedd yn byw yn Ynys-hir yng Nghwm Rhondda, am bryddest ar y testun 'Trannoeth y Drin' dan y ffugenw 'Oriau Dwys'. Cyd-feirniaid W. J. Gruffydd oedd Wil Ifan a T. Gwynn Jones. Aeth enw James Evans yn angof erbyn hyn, ond gallai Wil Ifan ei ddisgrifio yn 1932 fel 'one of the most interesting figures among our modern poets', a chyhoeddodd ddetholiad o'i gerddi yn 1946. Atal y wobr oedd canlyniad cystadleuaeth y Gadair, dan feirniadaeth John Morris-Jones, J. J. Williams ac R. Williams Parry.

Enillodd Griffith John Williams (1892–1963) wobrau yn Eisteddfod y Barri am ei delyneg 'Gwladys Ddu' (dan feirniadaeth Eifion Wyn ac W. J. Gruffydd) a'i soned 'Llanilltud Fawr' (dan feirniadaeth T. Gwynn Jones ac R. Williams Parry). Daeth yn ail hefyd am y Goron â phryddest ar y testun 'Mordaith Brân'. Cymrawd ymchwil oedd G. J. Williams ar y pryd yn gweithio ar draddodiad llenyddol Morgannwg, ond ymhen y flwyddyn byddai'n ymuno ag W. J. Gruffydd yn ddarlithydd yn y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd – a dyna ddiwedd ar 'y dwymyn barddoni'! Fel y dywedodd Griffith John ymhen flynyddoedd wrth un o'i fyfyrwyr ymchwil, Bobi Jones: 'Fyddwch chi'n rhoi'r gorau i'r barddoni 'na cyn bo hir. Mi fydd ysgolheictod yn ymaflyd ynoch chi'!

Un a fu'n bur feirniadol o 'ddiffygion' yr Eisteddfod Genedlaethol oedd yr awdur cynhyrchiol a digon ddadleugar, David Davies (1849–1926), a dreuliodd gyfnodau yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn nociau Caerdydd ac ym Mhenarth. Ond yn y *Welsh Outlook* yn rhifyn Medi 1920, canmolodd bwyllgor Eisteddfod y Barri am ragoriaeth gyffredinol y trefniadau. Rhoddodd ganmoliaeth arbennig i'w hymgais i roi sylw amlycach ym mhrif bafiliwn yr Eisteddfod i enillwyr traethodau – safbwynt nid annisgwyl ar ei ran o gofio iddo ymgeisio amryw droeon ar gystadlaethau o'r fath! Ond roedd hyd yn oed y sylw amgenach a gafwyd yn y Barri yn rhy bitw i blesio David Davies. Gwyddai, meddai, mai'r broblem oedd mai dod i wrando ar y gerddoriaeth yr oedd y rhan fwyaf o'r dorf enfawr. 'Even at Barry', meddai, '– through no fault of the local Committee, but from a dread of the disapproval of the crowd [of 18,000 or so in the pavilion] – the awards for literary productions, which in some cases involved untold research and toil, were thrust hastily into the crevices of, say, a choral competition, or into a brief pause between a solo, or duet, and the forthcoming adjudication.' Ac meddai ymhellach: 'I would suggest, as an improvement, that while the Chair and the Crown ceremonials may be allowed to retain their place, as quaint and popular relics of a more or less honoured past, prose productions – which in some instances entail ten times as much labour and mental acumen as those poems – should have an honourable place each day in the proceedings of the large pavilion.'

Ysgrifennydd Pwyllgor Cerdd Eisteddfod 1920, ac arweinydd Côr Plant yr Eisteddfod honno, oedd William Matthews Williams. Mae plac ar ei dŷ, 9 Old Village Road, Y Barri, i goffáu ei ferch, y gyfansoddwraig enwog Grace Williams (1906–77). Ac yn y tŷ hwnnw hefyd, yn Ionawr 1913, y bu farw tad W. M. Williams, yr arloeswr newyddiadurol Robert Williams, golygydd cyntaf *Y Genedl Gymreig*. Athro ysgol oedd W. M. Williams ac arweinydd Côr Bechgyn Romilly – côr a enillodd fri rhyngwladol, gan ganu o flaen Arlywydd America, Woodrow Wilson, yn y Tŷ Gwyn yn 1914. Dywed ei ferch, Grace, iddi gael ei thrwytho mewn alawon a chaneuon gwerin Cymreig o'i phlentyndod. Ac o gofio am ei darn i gerddorfa, *Fantasia on Welsh Nursery Tunes*, a gyfansoddwyd tua 1940, diddorol gweld mai un o'r cystadlaethau yn Adran Gerdd Eisteddfod 1920 oedd 'Tone Poem for Orchestra, based on Welsh Airs or Welsh Folk Songs'.

Yr un a fu'n fwy cyfrifol na neb fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y Barri yn 1920 oedd D. Arthen Evans. Ef oedd Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod honno, ac fel y gwelwn y tro nesaf, yr oedd yn eisteddfodwr brwd.

(*I'w barhau*)

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**STRAEON CAMPUS**

**Fel rhan o Gronfa Cefnogi Partneriaid Cwpan y Byd Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Llyfrau Cymru ymhlith y 19 sefydliad sy'n cefnogi tîm Cymru wrth iddynt fynd i Qatar ym mis Tachwedd.**

Mae'r Cyngor wedi cael arian i ddarparu llyfrau ar thema pêl-droed am ddim i lyfrgelloedd a banciau bwyd ledled Cymru, er mwyn dod â hud pêl-droed i ddarllenwyr a dathlu campau tîm Cymru.

Dywedodd Helgard Krause, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau: "Rydyn ni wrth ein bodd i gael bod yn rhan o'r rhaglen gyffrous yma ac i ddefnyddio angerdd y dathliad o lwyddiant Cymru yng Nghwpan y Byd i sbarduno cariad at ddarllen a helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd.

Mae gan ddarllen a gweithgarwch corfforol rôl bwysig i'w chwarae yn ein hiechyd a'n lles ac mae Straeon Campus yn dod â'r ddwy elfen at ei gilydd. Boed yn helpu cefnogwyr pêl-droed i ddarganfod llyfrau y byddan nhw'n eu caru, neu'n darparu rhywfaint o ysbrydoliaeth i annog cyfranogiad mewn pêl-droed, gemau a chwaraeon, bydd plant a phobl ifanc yn gallu dewis o ddetholiad eang o lyfrau ar thema pêl-droed i'w mwynhau yn ystod Cwpan y Byd ac i ddathlu lle Cymru yn y twrnament."

Bydd prosiect Straeon Campus y Cyngor Llyfrau yn darparu detholiad o lyfrau diweddar ar thema pêl-droed, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i lyfrgelloedd awdurdodau lleol ac i fanciau bwyd ledled Cymru. Bydd y llyfrau ar gael o ddechrau mis Tachwedd a bydd ystod eang o deitlau ar gyfer pob gallu darllen, o'r Cyfnod Sylfaen i oedolion. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor Llyfrau.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor Llyfrau.

# Bwytai Merch y Ddinas

## *"Codi'r To"*

**Lowri Haf Cooke**



Hydref hapus i chi! Mae'n braf cael esgus i eistedd yn llonydd i gael sgwennu pwt o lith am Gaerdydd. Dwi 'di bod yn teithio gryn dipyn dros y mis diwethaf, yn sgil comisiwn gan Croeso Cymru i ymweld â bwytai Michelin Cymreig. Nawr, plis peidiwch â meddwl mod i'n chwarae'r feiolin leiaf mewn hanes, ond gan fod Cymru bellach yn meddu ar naw bwyty serennog, mae gen i dipyn o waith crwydro ar hyn o bryd! Rheswm i ddathlu... a dadebru'r eiliad hon, i mi gael canolbwyntio ar Gaerdydd.



Dyma feddwl am y Gaerdydd a dweud y gwir wrth gynnal sesiwn yng Ngŵyl Newydd, Casnewydd, ddiwedd Medi. Cynhaliais sesiwn ar 'flasau Casnewydd – yr hen a'r newydd' fel y bydda i'n gwneud mewn amryw lefydd. Hyd yma dwi di archwilio Blaenau Gwent, y Bermo, Ceinewydd, Y Sgiwen, Penarth a Phentwyn, trwy amryw brosiectau gwahanol. Os oes unrhywun awydd fy ngwahodd i gynnal sesiwn o'r fath, gyda llaw, wel da chi cysylltwch – dwi wrth fy modd! Mae'n ffordd wahanol o ddechrau trafodaeth, ac ystyried hunaniaeth a diwylliant lleoliad o'r newydd. Oherwydd mae 'na fwy i bwnc bwyd na chynhwysion ar blât – fe ddaw hanes, chwaeth, magwraeth, ac iechyd i chwarae eu rhan, ynghyd â'r synhwyrau ac atgofion. Mae sesiynau fel hyn wastad yn rymus dros ben! Oherwydd yn ogystal â balchder lleol am lwyddiannau cyfoes cyfagos, cyffyrddir yn aml â hiraeth am flasau'r gorffennol... a'r tensiynau all ddeillio o hynny.

Felly, yng Nghasnewydd ar hyn o bryd, mae 'na gryn sôn am y farchnad 'newydd' yng nghanol y ddinas. Yn ystod y pandemig, ailwampiwyd neuadd y farchnad i greu canolfan atyniadol i ymwelwyr a thrigolion lleol. Mae'n edrych yn hollol wych, ac yn wir, mae'n ffitio i gornel cŵl o Gasnewydd, nid nepell o dafarn hynafol Ye Olde Murenger, bar Le Pub a bragdy Tiny Rebel. Nawr, peidiwch â nghamddeall, mae gofod y farchnad yn hynod brydferth , ac yn wir, roedd y bwytai a'r bariau 'instagram-chic' yn orlawn pan ymwelais ar b'nawn Sadwrn. Ond dwi hefyd wedi bod yno yng nghanol yr wythnos... pan mae'n dawel fel y bedd. Oherwydd does dim cigydd na becws na groser yn bresennol, a dim ond ambell stondin o'r farchnad wreiddiol. Sy'n gwneud i mi holi, i bwy mae 'marchnad' o'r fath? A pha gyfle sy' na i drigolion Casnewydd daro ar wynebau cyfarwydd, clywed acen drawiadol eu hunain o'u cwmpas a thrwy hynny gael hawlio ac ymhyfrydu yn eu diwylliant 'leol'? Mae rhai o'r stondinwyr yn deillio o Fryste a thu hwnt. Nawr allwch chi ddim dweud yr un peth am Farchnad Caerdydd...




Mi wn, mae 'gentrificaton' yn destun dadleuol ers tro. Ac mae 'cynnydd' o'r fath yn rhan o hanes pob dinas yn y byd sy'n destun dyddiol i lanw a thrai. Yn wir, bu tensiwn dros y blynyddoedd ym Marchnad Caerdydd, wrth i rai pobol ddymuno newidiadau, fel ymestyn yr oriau agor i ddenu cynulleidfa iau fin nos. Ond beth bynnag fo'r tensiynau, mae'r farchnad yn feicrocosm o'r brifddinas, ac mae pob ymweliad yn cynnig symffoni i'r synhwyrau. Fe glywch chi'r acen yn groch yn eich clustiau, ac fe deimlwch chi'r ddinas yn anadlu o'ch cwmpas. Wrth gamu trwy'r brif fynedfa cewch eich taro gan don fawr hallt o stondin bysgod Ashtons. Gerllaw, caiff eich trwyn ei gynhyrfu gan stondin sbeisys Clancy's ac arogleuon melys cacennau cri. Heb sôn am sawr chwerw The Old Market tu fas, a pizza Ffwrnes – yn syth o'r popty - fyny staer. A beth am y blasau? Y cocos, pupur a finegr, y ffagots, a rôl ham... a'r 'bag o bananas a pownd' o'r stondinau ffrwythau ddiwedd p'nawn.

Ymhellach o ganol y ddinas, parhau wna'r tyndra rhwng llanw a thrai. Yn cau cyn diwedd mis Hydref bydd The Lazy Leek, stondin lysieuol King's Yard, Pontcanna. Mynwch ymweliad cyn iddynt gau – ges i flas arbennig ar eu brathiadau blodfresych barbeciw, oedd yn hyfryd o hydrefol yn yr awyr iach. Mae nhw'n cau yn rhannol oherwydd yr argyfwng costau byw, ond bydd eu 'tryc' yn parhau i weini eu danteithion llysieuol mewn gwyliau bwyd. Yna cafwyd croeso yn Waunadda – ar gornel Four Elms Road a Stryd Clifton – i gaffi masnach deg hyfryd 'Sparrow'. Nid yn unig y mae'r fenter yn cefnogi cynhyrchwyr coffi Uganda, ond hefyd goroeswyr masnach ddieflig caethwasiaeth. Yn wir, ymysg y gweithwyr mae cyn-ddioddefwyr, gafodd gymorth yn lleol gan ganolfannau Oasis a'r Rainbow Trust. Criw hyfryd tu hwnt, a ges i baned o goffi Cortado gwych, gaiff yn nhŷ rhostio cwmni 'Manumit' yn Nhremorfa.

Daeth Mona o Albania draw i'r bwrdd gyda fy mhaned, gan rannu ei bod hi wedi dysgu dweud 'bore da'. Fe soniodd yn ogystal ei bod hi'n ffeindio'r Cymry lleol yn hynod gyfeillgar. Onid dyna'r adolygiad gorau posib i'ch denu chi yno? Ond os oes angen abwyd pellach, paratoir y cacennau ffres gan gaffi bar lleol Sibling. Oes wir angen gofyn pa un nes i ei fachu? Wel y 'cookie' wrth gwrs. Hynod flasus. Mewn prifddinas llawn trydar sy'n orlawn o gwmnïau cadwyn braf cael cefnogi caffi annibynnol Sparrow. Gyda chwmni annibynnol, rydych chi'n cefnogi gweithwyr a chyflenwyr yr ardal. Da chi, hedfanwch draw fel aderyn y to i gael profi blas bach newydd o Waunadda.

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke, Gwasg Gomer, £9.99.**

## Côr Caerdydd yn ymestyn allan wrth ddathlu 30 mlynedd

Bydd dathliadau Côr Caerdydd yn 30 oed yn dod i'w penllanw'r hydref hwn gyda chyngerdd yng Nghapel Tabernacl yr Ais, fydd yn cynnwys cerddoriaeth a gyfansoddwyd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf o Gymru a thu hwnt. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur, gan ddechrau ym mis Mawrth gyda pherfformiad yr Offeren Heddwch gan y cyfansoddwr y bu'r côr yn cydweithio fwyaf ag ef ar hyd y blynyddoedd, Syr Karl Jenkins. Ym mis Mai bu'r aelodau yn hel atgofion mewn cinio mawreddog yng ngwesty'r Angel ac yna ym mis Awst daeth y fuddugoliaeth yn Nhregaron y bu cefnogwyr y Dinesydd yn darllen amdano fis diwethaf.

Yn ymuno â Chôr Caerdydd i ddathlu bydd Côr Ysgol y Wern, o dan arweiniad Mair Long, ac artistiaid eraill. Cyfeilydd Côr Caerdydd yw Dafydd Huw, sy'n un o ddiaconiaid y Tabernacl.

Ymysg y gerddoriaeth o'r deng mlynedd ar hugain diwethaf bydd darnau gan Lauridsen ac Ola Gjeilo a cherddoriaeth gan gyfansoddwyr o Gymru, o ganeuon Eric Jones a Chwmni Theatr Maldwyn, i drefniannau o emynau a chaneuon poblogaidd. Hwn fydd y tro cyntaf hefyd i'r gwaith gan Paul Mealor a gomisiynwyd gan y côr i ddathlu'r pen-blwydd - *Fel yr Hed y Frân*, i eiriau'r Prifardd Tudur Dylan - gael ei glywed yng Nghaerdydd.

Ond mae Côr Caerdydd wedi bod yn ddigon ffodus i gael gwaith newydd arall wedi'i gyflwyno iddo ar achlysur ei ben-blwydd, a hynny gan un o aelodau'r Tabernacl a'i ysgrifennydd, Euros Rhys Evans. Hwn fydd y perfformiad cyntaf o *Encil*, gwaith y mae Euros wedi'i gyfansoddi er cof am ei chwaer-yng-nghyfraith, Anwen Puw.

Wrth i'r côr nodi'r pen-blwydd pwysig mae'n naturiol edrych yn ôl dros yr hyn a gyflawnwyd dros dri degawd, ond eleni mae Côr Caerdydd yn awyddus i ymestyn allan i gynulleidfa newydd, a gyda'r nod hwnnw mae'r côr yn cynnig nifer fawr o docynnau am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches – pobl sydd wedi gorfod dod i Gymru i ddod o hyd i'w hencil eu hunain.

Os ydych chi'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r gymuned hon ac yn awyddus i dderbyn gwahoddiad i'r gyngerdd i'w basio ymlaen, cysylltwch â'r arweinydd Gwawr Owen drwy fynd i wefan y côr www.corcaerdydd.com neu anfon neges drwy gyfrif y côr ar y cyfryngau cymdeithasol.

*Elin Cadifor*

Cyngerdd Dathlu 30 mlynedd Côr Caerdydd
Capel y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd CF10 1AJ
3pm, dydd Sul, 23 Hydref 2022
Tocynnau'n £10, plant dan 16 oed am ddim.
Cyfraniad ariannol at DEC Cymru.

Arweinydd Côr Caerdydd Gwawr Owen yn derbyn rhodd o gasgliad o luniau'n edrych yn ôl dros 30 mlynedd yng nghinio dathlu'r côr.



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Mewn oedfa arbennig nos Sul, Medi'r 25ain, o dan arweiniad y Parch. Glyn Tudwal Jones, fel Cyn-Lywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain, rhyddhawyd y Parch. Aled Huw Thomas fel Gweinidog ar ofalaeth Eglwys y Crwys. Anerchwyd, ar ran y blaenoriaid, gan Thomas Williams. Dymunwyd yn dda i Aled ar ei ymddeoliad a chyda phob bendith iddo ef a Delyth i'r dyfodol.

Trist yw nodi y bu farw Mrs Gwen Roberts. Mae ein cydymdeimlad dwysaf gyda Mererid Velios a'r teulu a chyda Martin a Dewi yn eu profedigaeth o golli mam arbennig.

Dymunwn yn dda i Mrs Carol Williams sy'n symud o Gaerdydd i ardal Dinbych, yn agosach at ei merch Lisa. Mae'n gyfarwydd iawn â'r ardal gan y bu i'w diweddar briod, y Parch. Cynwil Williams weinidogaethu yn y Capel Mawr, Dinbych am nifer o flynyddoedd.

Mae Mrs Sali Davies bellach wedi ymgartrefu yn Tŷ Llandaf. Pob dymuniad da iddi.

Llongyfarchiadau i Catrin Harker ar gael ei phenodi yn Brif Ferch yn Ysgol King's Monkton. Mae Catrin wedi bod yn ddisgybl yn yr ysgol ers pan oedd yn dair oed. Dymunwn yn dda iddi.

Cafodd aelodau'r Gymdeithas ddiwrnod i'w gofio ar eu gwibdaith i Slimbridge gyda'r tywydd yn gynnes braf. Hyfryd oedd cael crwydro'n hamddenol o gwmpas y parc natur. Diolch i Cerian Angharad am drefnu'r daith.

Mae'r pwyllgor Cymorth Cristnogol yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at Apêl 'Hadau Gobaith' Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cynhelir Bore Coffi yn dilyn yr oedfa foreol ar Hydref 16eg ac mae croeso cynnes i bawb.

Yn ystod mis Tachwedd, gwasanaethir ar y Sul cyntaf gan y Parch. Glyn Tudwal Jones a bydd yr oedfa foreol yn Oedfa Gymun. Ar y 13eg gwasanaethir yn yr oedfa foreol gan y Parch. Gwilym Wyn Roberts a Mr William Tiplady yn oedfa'r hwyr. Byddwn yn croesawu'r Parch. Robin Samuel i arwain yr oedfa foreol ar yr 20fed, ac ar y 27ain gwasanaethir gydol y dydd gan y Parch. Ddr R. Alun Evans. Croeso cynnes i bawb.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.): Hydref 2022:**

2 - Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul
9 – Oedfa Gymun (Delwyn Siôn)
16 – Parchedig Robert Owen Griffiths
23 - Parchedig R. Alun Evans
30 – Oedfa Sul Adferiad (Wynford Ellis Owen)

Darllenais *Rhyngom*, a enillodd i Sioned Erin Hughes y Fedal Ryddiaeth eleni, ac fe ddaliodd un paragraff fy sylw yn stori yr "Haul llwynog":-

"*Y dail wedi blino ar eu gwyrddni eu hunain. Gwaedu'n goch a chlwyfo'n felyn a phydru'n frown. 'Roedd y sŵn crensian pleserus dan draed wedi ei golli i law didrugaredd neithiwr, gan adael rhyfeddod yr hydref i lynu'n un llanast gwlyb wrth fy sgidiau.*"

Disgrifiad godidog o'r hydref yn ddios.

Pum engraifft o'r "hydref" sydd yn y Beibl (Beibl.net.)

Tri yn yr Hen Destament, ac un yn y Testament Newydd, yng nghyswllt cael glaw ar yr adeg iawn er budd y cnydau, ac un yn yr Actau yn cyfeirio at "*ddechrau hydref*" a'r llongddrylliad pan oedd Paul yn hwylio i Rufain.

(Mae'r gwanwyn yn cael mwy o sylw oherwydd mai dyna'r "*adeg pan fyddai brenhinoedd yn arfer mynd i ryfela!*".)

Cyfrol arall a lansiwyd yn yr Eisteddfod oedd *Malwan bach fel fi… yn cloddio am aur,* a olygwyd gan Prydwen Elfed-Owens. Ei bwriad trwy'r casgliad o 60 o gyfraniadau sydd yn y gyfrol oedd "*dysgu mwy am yr hyn sydd yn digwydd yn enw Crist yng Nghymru heddiw*"

"*Mae'r … gyfrol hon yn cynnwys esiamplau o batrymau a dulliau gweithredu y gellid eu hefelychu, eu haddasu a'u datblygu. Yn ogystal, … cynnig syniadau, ystyriaethau a meini prawf y gall eglwysi fesur eu pererindodau eu hunain yn eu herbyn.*"

Mae'r "Cynnwys" yn nodi bod nifer o ddalgylch Caerdydd wedi cyfrannu iddi.

A'r her i'n heglwysi - peidiwn gadael i'r "*hydref hwn i lynu'n un llanast gwlyb wrth ein sgidiau ni!*"

## EGLWYS DEWI SANT

**Datganiad Organ**

Braf oedd gweld eglwys Dewi Sant yn gysurus lawn am 1:15 ddydd Gwener. Medi'r 9fed. ar gyfer datganiad ar yr organ gan y Dr Peter King, cyn-organydd ac Organydd Emeritus Abaty Caerfaddon.

**Coffi a Chlonc**

Bore Sadwrn yr 17eg o fis Medi cafwyd sesiwn Coffi a Chlonc rhwng 10:30 a 12:00 yn neuadd yr eglwys. Roedd hi'n dda gweld cynifer yn mwynhau sgwrsio hamddenol. Bydd y sesiwn nesaf fore Sadwrn y 15fed o fis Hydref.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Dawn King a'i theulu ar farwolaeth ei brawd Mervyn Evans Jones yn ddiweddar.

**Priodas**

Dymunwn bob bendith i Lisa Stewart a Daniel Jones ar eu priodas yn eglwys Dewi Sant ar Fedi'r 11eg.

**Yr Ysgol Sul**

Mae'n galonogol gweld bod yr Ysgol Sul wedi ailgychwyn ym mis Medi. Cynhelir yr Ysgol Sul ar Sul 1af a 3ydd Sul y mis a gwasanaeth aml-oed ar 2il Sul y mis am 10:30 a.m. Croeso cynnes i bawb.

**Côr yr Eglwys**

Mae Côr yr Eglwys wedi ailgychwyn ymarfer ar nosweithiau Mawrth am 6:00 p.m. Rydym yn chwilio am aelodau newydd sy'n mwynhau canu cerddoriaeth eglwysig mewn côr bach pedwar llais. Os oes gennych ddiddordeb, mae croeso ichi ddod i un o'r ymarferion.

**Gwasanaethau**

Fe fydd gwasanaeth yn yr eglwys bob dydd Sul am 10:30 a.m ac am 6:00 p.m a gwasanaeth am 8:00 a.m ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis. Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Yn ôl ein harfer, byddwn yn cyfrannu tuag at yr elusen werthfawr hon. Fe fyddwn yn casglu nwyddau tros y misoedd nesaf ac mae modd cyfrannu yn ariannol yn ogystal.

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

...i Alun Tudur ar ddathlu 36 mlynedd yn y weinidogaeth ar 13 Medi. Ebeneser Wrecsam oedd ei eglwys gyntaf cyn dod atom ni ar 1af o Ebrill 1995. Diolch am ei weinidogaeth ddiflino a bendithiol.
...i Arfon a Rachel Jones ar ddathlu Priodas Berl ar 26ain Medi.

**Te Pnawn**

Yn dilyn oedfa bnawn, Sul 4ydd o Fedi cawsom de pnawn yng nghwmni ein gilydd. Cafwyd gwledd o frechdanau, a chacennau bach a mawr, yn wledd i'r llygad a'r stumog!! Y bwriad oedd codi arian ar gyfer ein helusen am eleni, a hyfryd i gael dweud bod dros £400 wedi ei godi. Hyfryd hefyd oedd cael cyfeiliant cerddoriaeth linynnol yn gefndir gan Esyllt Jones a Gwenda Lewis. Diolch i bawb am eu cyfraniadau, ac yn arbennig i'r rhai fu'n ddiwyd yn paratoi'r bwyd ac yn gweini.

**Arwydd o ddiolch**

Ar ddiwedd y te pnawn cafwyd cyflwyniad arbennig i ddau o'n diaconiaid mwyaf profiadol sef Malcolm Thomas ac Eira Jones. Neilltuwyd y ddau ohonynt i'r ddiaconiaeth ym 1970 gan y Parch. Ddr Emlyn Jenkins. Eira oedd y Diacon benywaidd cyntaf yn hanes yr achos ac mae ganddi hanesion diddorol am yr heriau a wynebodd. Buom yn pendroni'n hir ynglŷn â beth allem ei roi i bobl sydd â phopeth. Y penderfyniad oedd comisiynu Dr Eirian Dafydd i gyfansoddi englynion i'r ddau ac fe'u cyflwynwyd iddynt fel arwydd o'n diolch mawr ac o'n parch dwfn tuag atynt. Dyma'r englynion,

Eira Jones

O edau wen ei deunydd a geiriau
y Gair sy'n dragywydd
y lluniwyd â llawenydd
sampler ei phader a'i ffydd.

Malcolm Thomas

Y mae gwres yn fflam ei groeso, a gras
yw'r grym sy'n ei lywio
i roi'i fryd ar droi ei fro
yn aelwyd i'w hanwylo.



Alun Tudur, Eira Jones a Malcolm Thomas

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llawenhawn gyda Nerys a Tom King ar enedigaeth eu mab Evan William. Mae Nerys a Tom yn byw ac yn gweithio yn Pattaya, Gwlad Thai, a dymunwn bob bendith a llawenydd iddynt fel teulu bach. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Taid a Nain, Selwyn a Beryl Williams. Mawr fydd yr edrych ymlaen at weld yr ŵyr bach yn y flwyddyn newydd.

**Clybiau Nos Wener**

Cynhelir Clwb Hapus Awr i blant ysgol gynradd bob nos Wener o 6 tan 7 o'r gloch. Bydd gemau, caneuon, crefftau a straeon o'r Beibl. Am 7 tan 9 o'r gloch cynhelir Clwb Ieuenctid i oedran ysgol uwchradd. Bydd gweithgareddau hwyl, mwynhau a thrafod wrth astudio'r Beibl. Cynhelir y ddau glwb yn adeilad yr eglwys 110 Stryd Harriet, CF24 4BX.

**Paned a Sgwrs**

Ddechrau mis Medi cyfarfu'r cwrdd merched yn y cnawd am y tro cyntaf ers y cyfnod clo. Roedd pob un ohonom yn ddiolchgar iawn am y cyfrwng Zoom a'n galluogodd i gadw cysylltiad â mwynhau cymdeithas ar hyd y misoedd ond llawenydd mawr oedd dod ynghyd unwaith eto. Edrychwn ymlaen at gael cyfarfod bob pythefnos yng nghartrefi'n gilydd.

**Tymor Newydd**

Dymunwn yn dda i holl blant yr eglwys wrth iddynt ddechrau tymor newydd yn eu gwahanol ysgolion.

**Efengylu**

Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod yn adeilad yr eglwys yn Harriet Street dan nawdd Fforwm Arweinyddiaeth Cymru pryd y tynnwyd ein sylw at sawl ymdrech efengylu drwy'n gwlad. Llywyddwyd y noson gan Lois Adams a'r Parch. John Treharne, Llwynhendy a chafwyd cyfraniadau gan weithwyr o Goleg Y Bala. Undeb Bedyddwyr Cymru, mudiad Cristnogol i fyfyrwyr prifysgol, Mudiad Efengylaidd Cymru a Lois Adams sy'n gweithio gyda'r eglwys. Soniodd pob un am yr anogaethau a'r heriau yn y gwaith o efengylu. Cafwyd gair gan y Parch. Dafydd Job, Bangor i gloi'r noson. Cyfeiriodd ein sylw at lyfr Daniel, pennod 9 lle yr atgoffwyd y proffwyd o bryd byddai diwedd y gaethglud. Ymateb Daniel i hyn oedd ymroi i weddïo gan gyffesu pechod y genedl ac ymbil ar Dduw am drugaredd. Anogwyd ni i wneud yr un peth yn wyneb sefyllfa ysbrydol drist Cymru.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ddechrau Medi roedd yn braf i gwrdd eto ar ôl seibiant mis Awst. Ar Fedi 4 cawsom gwmni Helen Jones i arwain ein gwasanaeth. Y Sul canlynol roedd y gwasanaeth yng ngofal ein horganydd Gwilym Roberts a drefnodd gymanfa fach i'r aelodau. Soniodd am gefndir yr emynau a ganwyd a chafwyd hefyd ychydig o hanes crefydd ym mhentre Rhiwbeina. Yn ystod y mis croesawyd y Parch. Eirian Rees i'r pulpud ac ar y Sul olaf roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan.

Mae ein gweinidog yn cychwyn ar ei ail flwyddyn fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ac ar Fedi 6 bu cyfle i'n haelodau fynd i Salem Treganna i glywed Evan yn pregethu mewn gwasanaeth arbennig i nodi dechrau'r cyfnod newydd fel llywydd. Rydym yn dymuno'n dda iddo yn y flwyddyn brysur sydd i ddod.

## TABERNACL, YR AIS

Cynhaliwyd Oedfa arbennig i sefydlu'r Parchg Ddr Rosa Hunt yn weinidog Y Tabernacl, Caerdydd ddydd Sadwrn 17 o Fedi. Braf oedd cael gweld y capel yn orlawn ar yr achlysur cyffrous, arbennig hwn. Cafwyd eitem gan blant yr Ysgol Sul - darn a gyfansoddwyd gan Mair Long - ac yna datganiad gan Gôr yr Eglwys yn canu Cân y Cynhaeaf, y geiriau gan Lisa Tiplady a'r gerddoriaeth gan Euros Rhys. Derbyniwyd cyfarchion gan y Parchg Ddr Ed Kaneen ar ran Coleg y Bedyddwyr, Paula Hughes ar ran Salem, Tonteg a Rhys ab Owen ar ran y Tabernacl. Cyflwynwyd y bregeth gan y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb y Bedyddwyr ac fe gafwyd pregeth rymus ganddi. Ar achlysur mor arwyddocaol i'r Tabernacl, diddorol yw nodi bod y pump emyn a ganwyd yn ystod y gwasanaeth wedi'u cyfansoddi gan gyn-weinidogion y Tabernacl ac un gan Rosa ei hun.

Llongyfarchiadau i Nia Maclean ar ei dyweddïad yn ddiweddar ac hefyd i Andreas Lloyd, ŵyr i Illtyd Lloyd, ar ei ddyweddïad yntau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Mudiad y Chwiorydd yn y Tabernacl eleni. Wedi trosglwyddo llywyddiaeth y Mudiad i Ruth Davies, cafwyd anerchiad diddorol ganddi ar y thema 'Merched yn Bennaf'. Yn ystod y cyfarfod hwyrol, rhoddwyd anerchiadau gan Awen Iorwerth o Ysbyty Llantrisant, Rhian Hughes Williams, cyn-brif weithredwr Gofal Cymru a'r Parchg Ddr Rosa Hunt. Diolch am eu cyfraniadau.

Daeth y Clwb Darllen at ei gilydd ganol y mis a'r llyfr dan sylw oedd *Y Dydd Olaf* gan Owain Owain. *Drift* gan Catrin Dafydd yw'r dewis am fis Hydref.

Cafwyd datganiad ar yr organ ar ddydd Sadwrn ola'r mis gan Greg Abrahams i ail-ddechrau'r tymor.

Diolch i'r canlynol am gynnal y gwasanaethau yn ystod y mis – Noa Evans, Y Parchg Denzil John, Y Parchg Lona Roberts, Y Parchg Ddr Rosa Hunt, Y Parchg Rob Nicholls a phlant yr Ysgol Sul.



*Y rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth Mudiad Chwiorydd UBC*

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cariad at Elizabeth Williams a Rob Waite sy mewn cyfnod o anhwylder.

Cyfarchion hael i Mary a David Simmonds ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Llongyfarchwn Llinos Haf ar ei llwyddiannau yn y Genedlaethol eleni; hi oedd enillydd Gwobr Goffa y Fonesig Ruth Herbert Lewis am unawd Alaw Werin o dan 25 oed a hefyd yn enillydd Unawd Mezzo Soprano o dan 25 oed.

Cafwyd cyfnod o hwyl i'r plant bach brynhawn Sul, Medi 28ain ar dir Eglwys yr Holl Saint. Roedd 'plant' hŷn yno hefyd ac yn mwynhau'r tywydd dymunol. Bu'n gweinidog yn rhoi sylwadau ar agweddau o hanes y creu.

Edrychwn ymlaen at y drefn o gynnal ciniawau gydag eglwysi eraill Penarth er lles Cymorth Cristnogol. Bydd Bethel yn gyfrifol am achlysur y 7fed o Hydref.

Nid oes pall ar ein diolch am ymdrechion John a Gerald i gael ein trefniant ffrydio oedfaon i berffeithrwydd.

Ar Sul Medi 4ydd, arweiniodd ein gweinidog ni i ystyried geiriau o Lyfr Exodus (4, 2), 'Beth sydd gennyt yn dy law?', gan bwyso arnom i wneud yn fawr o'r hyn sy gan bob un ohonom yng ngwaith yr Efengyl. Wedi'r oedfa bu rhai ohonom yn cofio clywed pregeth ar yr un testun gan y diweddar Barchedig Haydn Thomas. Bu Mr Thomas yn barod iawn ei gymwynas â Bethel. Chwithig, felly, ond yn ddiolchgar, oedd darllen y deyrnged iddo mewn rhifyn diweddar o'r *Dinesydd.* Da was. Coffa da.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n braf gweld aelodau'r gynulleidfa Gymraeg yn dod at ei gilydd ar Sul olaf mis Medi yn Eglwys Teilo Sant i glywed y Tad Peter Davies yn dathlu'r Offeren. Roedd hi'n Sul i ddiolch am y cynhaeaf, ond rhaid i ni gofio hefyd bod angen i ni gynorthwyo'r rhai sydd heb anghenion bywyd, yn agos ac ymhell. Erbyn diwedd mis Hydref, gobeithiwn allu cynnig paned a theisen ar ôl yr Offeren i ni gael eistedd a sgwrsio unwaith eto.

Ddydd Sadwrn Medi 17eg cafwyd Offeren arbennig iawn yn Eglwys Alban Sant yn Splott. Dyma lle bydd yr Offeren yn cael ei dathlu'n gyson yn Lladin. Y bore hwnnw, y Tad Gwilym Evans, FSSP, oedd yn dathlu'r Offeren Fawr a dyma'r tro cyntaf iddo ddathlu'r Offeren Ladin yn yr Esgobaeth lle cafodd ei fagu.

Ar fferm Sycamore Cross yn Nhresimwn ym Mro Morgannwg cafodd y Tad Gwilym ei fagu a derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol Iolo Morgannwg. Roedd yn ganwr hyfryd ers pan oedd yn fach ac mae cerddoriaeth wedi bod yn rhan annatod o'i yrfa hyd nawr. Daeth yn aelod o gôr y Gadeirlan yn Llandaf a symud wedyn i Eton ac i Gaergrawnt, lle buodd yn astudio Hebraeg ac Arabeg. Ar ôl cyfnod yn gweithio gyda cherddorion yn Llundain, dewisodd fynd i hyfforddi'n offeiriad yn Bafaria, lle bu am saith mlynedd cyn cael ei ordeinio'n offeiriad Catholig yn yr haf.

Yn ystod yr Offeren, clywsom gerddoriaeth draddodiadol yr Eglwys - Blaengan a rhannau'r Offeren gan Palestrina ac eraill, yn cael eu canu'n hyfryd gan gôr digyfeiliant. Ar ddiwedd yr Offeren gwahoddwyd pawb yn y gynulleidfa i fynd ymlaen i dderbyn bendith gan yr offeiriad newydd ac yna i fwynhau'r wledd a ddarparwyd ar ein cyfer yn neuadd yr eglwys.

Llongyfarchiadau mawr i'r Tad Gwilym a phob dymuniad da a bendith iddo wrth iddo ymroi i'w alwedigaeth.

Bydd Offeren mis Hydref ar Sul olaf y mis – Hydref 30ain am 4 30pm yn Eglwys Teilo Sant, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1AD. Croeso cynnes i bawb. Caiff yr Offeren ei ffrydio'n fyw ar wefan yr eglwys: (stteilos-olol.co.uk)

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Sylwch y bydd pob oedfa foreol yn dechrau am 09:30 am gyfnod arbrofol tan ddiwedd Rhagfyr.

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn nwy oedfa 2 ac 16 Hydref ac yn yr oedfa foreol ar 9 Hydref. Cynhelir Gŵyl Flynyddol Eglwys Ebeneser brynhawn y 9fed am 15:00. Bydd yr oedfa foreol yn oedfa gymun ar yr 2il ac yn oedfa i'r teulu ar yr 9fed. Ar 23 Hydref, y Parchedig Jeff Williams fydd yn arwain oedfaon y dydd ac ar Sul olaf y mis, oedfa aelodau fydd yn y bore a'r Parchedig Aled Edwards fydd yn arwain yr addoliad yn yr hwyr.

Bydd modd ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng *Zoom.* Yn ystod oedfaon 2, 16, 23, a 30 Hydref y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Trefnir taith gerdded dan arweiniad ein Gweinidog fore Mawrth, 4 Hydref. Fore Sul y 9fed, bydd yr Ysgol Sul a PIMS yn ymweld â Treetops Crazy Golf wedi'r oedfa ac yna brynhawn yr 16eg, bydd cyfle i dreulio prynhawn yng nghwmni ffrindiau o Ben-rhys. Bydd PIMS yn cyfarfod nos Iau, 27 Hydref am 19:00.

Gwyliau crefyddol Yom Kippur, Succott a Diwali fydd yn cael sylw ein Gweinidog am 19:00 ar 5, 10 a 24 Hydref. Bydd sesiynau Caffi Celf yn y festri ac ar *Zoom* am 11:30 fore Iau, 6 a 20 Hydref. Bydd cyfle i fynd ar daith o amgylch y Deml Heddwch amser cinio ddydd Mawrth, 11/25 Hydref. Yng nghanol y bwrlwm hwn, bydd sesiynau'r Gymdeithas (4 a 18 Hydref am 19:30) a gweithgareddau elusennol a chymunedol yr eglwys yn parhau.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am ddwy o'n haelodau fu farw dros yr haf, sef Siwan ap Gwilym (Parc y Rhath) ac Eleanor Jones (Rhiwbeina). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu a'u holl gyfeillion.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Megan Lili Williams, merch Geraint a Steph (Yr Eglwys Newydd) a chwaer fach i Cadi. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Llongyfarchiadau**

Wrth longyfarch pawb am bob llwyddiant, boed mewn arholiad neu eisteddfod, dros yr haf, estynnwn longyfarchiadau arbennig i un o'n diaconiaid, Llŷr Gwyn Lewis, am ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

**Dathlu 20**

Roedd bore Sul Medi 18 yn gyfle i ddathlu a diolch am 20 mlynedd o arweiniad clodwiw a bendithiol Owain Llŷr Evans yn Minny Street. Cafwyd pregeth 20 pen (!) cyn i bawb fwynhau cymdeithas a danteithion blasus yn y Festri gyda chacen arbennig wedi'i gwneud gan Anwen Phillips i nodi'r achlysur. Cyflwynwyd cywydd o






# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar gychwyn tymor 2022-23 newidiodd yr Aelwyd ei chartref cyfarfod i Eglwys Bethel, Rhiwbeina gan adael Eglwys Minny Street wedi blynyddoedd hapus iawn trwy garedigrwydd yr aelodau. Trosglwyddwyd y dyddiad i fore Mercher bob pythefnos am 11 o'r gloch, gan gychwyn ar Fedi 14eg. Penodwyd pwyllgor a swyddogion newydd dan gadeiryddiaeth Mair Morgan, a Beth Killen fel ysgrifennydd.

Trefnir rhaglen ddiddorol trwy gydol y flwyddyn. Ar Dachwedd 9fed dethlir 30 mlynedd yr Aelwyd mewn cyfarfod arbennig, a Gwenda Morgan, un o sylfaenwyr yr Aelwyd, yn wraig wadd. Croesawir aelodau presennol a newydd i'r cyfarfod nesaf ar Hydref 12fed. Y siaradwr fydd Lyn Davies, Rhiwbeina, ac yna'r cerddor Alun Guy ar Hydref 26ain.

*"Mor braf yw rhannu o brofiadau gwiw*
*Ac hamddena yng nghwmni cyfeillion triw".*

# Y DIGWYDDIADUR

## Hydref


**Mawrth, 11 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Liza Thomas-Emrus ar y testun 'Arwain Ysbyty Maes Covid-19 prysuraf y DU: Storïau o Ysbyty Seren', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).
**Gwener 14 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor yn Salem, Treganna, am 7.30pm. Wedi arwisgo'r Llywydd newydd, Rheinallt Thomas, ceir cyflwyniad ganddo ar y thema 'PWY ydw i? Crefyddau ein cymdogion.' Bydd modd ymuno hefyd trwy gyfrwng Zoom. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10. Y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3.00 (ond yn rhad i aelodau). I ymaelodi neu i dderbyn y ddolen Zoom ar gyfer cyfarfod unigol, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802). Croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 14 Hydref**
Clwb Canna yn cyflwyno Daniel Lloyd a Mr Pinc Wigwam yng Nghlwb Rhyddfrydol Treganna am 7.30pm.Tocynnau: £12 (ar gael o Caban).
**Llun, 17 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Te prynhawn yn y 'New House' am 2.30pm i ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 30 oed. (Enwau a thâl ymlaen llaw i'r Is-gadeirydd, Carol O'Donnell, 1 Min y Nant; ffôn 07910-547619.)
**Mawrth, 18 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Emlyn Davies ar y testun 'Coch Bach y Bala', am 7.30pm yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.
**Iau, 20 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Sgwrs gan yr awdur a'r darlledwr Jon Gower, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd am 7.30pm. Croeso cynnes. Am fanylion pellach, cysylltwch â Glenys (cadeirydd) 07857342464 neu â Janet (ysgrifennydd) 07810363232.
**Sul, 23 Hydref**
Cyngerdd Dathlu Côr Caerdydd yn 30 oed. Detholiad o'r gerddoriaeth gorawl orau o'r tri degawd diwethaf, yng nghwmni Côr Ysgol y Wern ac artistiaid eraill. Yng nghapel Tabernacl, Yr Ais, CF10 1AJ, am 3.00pm. Tocynnau: £10 (plant dan 16 oed am ddim).
**Llun, 24 Hydref**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Elain Price o Brifysgol Abertawe ar y testun 'S4C a'i Phartneriaethau Allweddol (1981–1985)'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Gwener, 28 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Gareth Evans-Jones ar y testun '"Mae'r Beibl o'n tu": llenyddiaeth grefyddol, greadigol y Cymry yn America am gaethwasiaeth (1838–1868)'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).
**Gwener, 28 Hydref**
Cylch Cadwgan. Noson yng nghwmni Delwyn Siôn yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 8.00pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).


## Tachwedd

**Mawrth, 1 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Gwyn Roberts ar y testun 'Ai Trobwynt oedd Tryweryn?', am 7.30pm yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 2 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Dr Mary Nicholas am Granogwen, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029 -2084-8545).
**Gwener, 4 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Arwel Gruffydd ar y testun 'Daeth y Llwyth yn Dylwyth: llwyfannu dramâu perthnasol sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10. Y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3.00 (ond yn rhad i aelodau). I ymaelodi neu i dderbyn y ddolen Zoom ar gyfer cyfarfod unigol, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews: (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802). Croeso cynnes.
**Gwener, 4 Tachwedd–Sadwrn, 5 Tachwedd**
'Elen Benfelen'. Ar gyfer plant 3–6 oed. Yn Stiwdio Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/elen-benfelen/?lang=cy
**Llun, 7 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yn y 'New House Country Hotel', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwraig wadd: Carol Bell. Manylion pellach: cylch.cinio@gmail.com
**Mawrth, 8 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Mati Roberts am Brosiect Matico, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).
**Mercher, 9 Tachwedd–Sul, 20 Tachwedd**
'Arwydd Drwy'r Awyr': profiad realiti rhithwir 360 yn Gymraeg a Saesneg, wedi ei ysbrydoli gan y tro cyntaf i signalau di-wifr gael eu gyrru dros ddŵr agored (rhwng Ynys Echni a Thrwyn Larnog yn 1897). Am ddim. Yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2022/a-signal-across-space/performances
**Iau, 10 Tachwedd**
Cylch Cadwgan. Noson yng nghwmni'r Prif Lenor Sioned Erin Hughes, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2022, am 8.00pm trwy gyfrwng Zoom. Trefnir y cyfarfod gan Gangen y Garth o Ferched y Wawr. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion ar dud. 2**

## Rhif: 227



**Ar draws**

1. Syniad da er mwyn ennill (6,4)
7. A yw ci Len yn chwilio am loches? (5)
8. Mae budd mewn ymdrech i un sy'n galw (7)
10. ''Ffo am dy einioes' ebe hi.
 At Fab y Dyn ----- -----' (WJ) (1,7)
11. Dihiryn a dorrodd fanc (4)
13. 'Hual' medd Menna ar yn ail 'yw hoe' (6)
15. 'Drain ac ysgall mall a'i medd,
 Mieri lle bu -----' (EE) (6)
16. Sylwi ar ran o'r cofnodion (4)
17. Gwneud cwd arian i'r milwr Rhufeinig (8)
21. Rhoi dŵr i afr aruthrol (7)
22. Brifo wrth rannu arfau ar yn ail (5)
23. Y cryf a dyfodd drwy y cyrddau (10)

**I lawr**

1. Torra allan yn fuan cyn y rhew (5)
2. Acen falch o'r garreg ……. (8)
3. …… er yn dal rhif perthynas (5)
4. 'Dy ----- a'th ras a'th gariad drud
 Sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd' (4)
5. Cyfansoddwr caeth (7)
6. 'Wele rith fel ymyl rhod – o'n cwmpas,
 Campwaith ----- -----' (DEJ) (5,5)
9. 'Ymhlith holl ----- nef
 Hwn yw y mwyaf un' (WW) (9'1)
12. Cam da yw i gael gweision (8)
14. Dod y mur yn ei le yn y garej (7)
18. 'Nôl blino'n treiglo pob tref
 Teg edrych tuag -----'(ILI) (5)
19. Rho olew ar hanner yr haidd i'w wneud
 yn wyrdd (5)
20. Brodor o'r dwyrain yn codi i chwilio am dorth
 (4)

**Enillydd Croesair Rhif 225**

**Sian Brown, Llandaf, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 225**

**Ar Draws:** 1. Maes gwersylla 7. Antur 8. Chwi 9. Caniadaeth 10. Iechyd 11. Neidr 14. Castell-nedd 16. Cad 17. Dinam 19. Ben deithio byd

**I Lawr:** 1. Mewn chwinciad 2. Gât 3. Eironi 4. Sylfaenydd 5. Lletya 6. Ddaeth o rod i rod 7. Afiach 9. Cadoediad 12. Incwm 13, Yn odli 15. Safle 18. Nai

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Y Dinesydd yn agosau at 50

Mae'n wir bydd papur bro hynaf Cymru yn dathlu'r 50 gyda rhifyn arbennig gobeithio yn mis Ebrill 2023.

Y bwriad yw y byddwn yn edrych yn ôl ac ymlaen.

Da cyhoeddi bod Norman Williams, Waunfawr, y golygydd ifanc cyntaf, wedi cydsynio i lenwi tudalen wrth iddo edrych yn ôl i gyfnod cyffrous y cychwyniadau arloesol ar ddechrau'r 70au!

Bydd creoso cynnes i eraill ohonoch i anfon gair – yn enwedig os oeddech yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd nôl yn y 70au a'r 80au.

Oes syniadau gyda chi sut medrwn fynd ati i ddathlu'r pen blwydd 50 yn ystod 2023? Croeso i bawb anfon gair ymlaen at
eirianagwilym@gmail.com.

## I Gofio Nia Rhosier

(24.vi.1933 — 19.vi.2022)

Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod:
(1985 - 1999)

Llywydd Anrhydeddus:
2010 - 2022

Ceidwad Canolfan Undod
Ac Adnewyddiad cristnogol,
Hen Gapel John Jughes, Pontrobert:
1995 - 2021

Rhennaist bob teg wirionedd—a herio
Yn ddewr bob anwiredd;
Ti oet nef pob tangnefedd;
Oet haul y difachlud hedd.

Robin Gwyndaf

# Pobol y Rhigwm

Gorchwyl bleserus oedd pwyso a mesur y chwe chynnig a ddaeth i law'r mis hwn. Mae'n rhaid bod y cystadleuwyr yn gwybod mai'r hydref yw hoff dymor y beirniad! Mentraf bod pruddglwyf barddol yn rhannol gyfrifol am hynny ond â'r tymor neilltuol hwn a'i naws ddiddos bellach ar ein gwarthaf, yn ei gynhaeaf a'i dywalltiad o liwiau, fy ngobaith oedd cael casgliad o gerddi'n ymateb i symbyliad yr adeg hon o'r flwyddyn a chefais i ddim o fy siomi o gwbwl. Ie, hanner dwsin yn unig a fentrodd ond eto, nid pa faint ond sut rai sy'n bwysig! Yn ddiddorol iawn, cafwyd cydbwysedd perffaith o'r caeth a'r rhydd gyda thri phennill a thri englyn (â'r gynghanedd yn gwbwl gywir ym mhob un, mae'n falch gen i ddweud!). Mae pob cynnig yn haeddu cael llwyfan y Dinesydd. Fe wna i fanylu ynghylch y tri gorau maes o law ond mae i'r tri a ganlyn eu rhinweddau amlwg, hefyd. Gwylier y ramadeg, *BopaGu*, '*ac* wyrion... *ac* iechyd' sy'n gywir, ond pennill hyfryd o syml (nid beirniadaeth yw 'syml' ond cryfder!). Mae mesur cynnig *Criafolen y Moch* yn rhyw fath o hybrid rhyfedd o driban estynedig a hir-a-thoddaid nawsill yn y wers rydd ond yn llawn sylwedd, wedyn, ac yn delweddu'n gry. Braidd yn henffasiwn yw mynegiant englyn *Pablo Neruda* – gwylier rhag gosod ansoddair cyn yr enw (neu'r ferfenw yn yr achos hwn). Mae'n englyn cadarn ei grefft, fodd bynnag ac rwy'n dwlu ar yr ymadrodd 'tymor cu'. Dyma nhw:

'Dail yr Hydref ydym ni
'Rôl magu'n plantos, un-dau-tri
Rhwng hwn a'r llall a wyrion lu
A iechyd da, cawn hwyl a sbri'.

*BopaGu*

**Y Ddraenen Wen yn yr Hydref**

Llawn iawn fu'r llwyn o ddail a blodau
A ffrwythau nawr sy'n llwytho'r brigau.
Cynhaeaf ein hoes i lonni'r fron
Cyn dyfod ton dinoethi'r pigau.

*Criafolen y Moch*

Nid haf na gwanwyn tyfu – na gaeaf
y gwywo digaru;
ond, â'i helaeth hiraethu,
*amour* y coed – tymor cu.

*Pablo Neruda*

Er nad yw'r tri chynnig uchod yn gorwedd gyda'r dail ar lawr y goedlan, o bell ffordd, codwn i'r canghennau uwch gyda'r tri sy'n weddill. Mae pob ymgais wedi llwyddo i ddal hanfod yr hydref a'i ddefnyddio i greu barddoniaeth. Dyma nhw, gyda gair am bob un:

'Dail yr Hydref ydym ni
'Rôl gorffen gwaith, meddyliais i
Cawn deithio, garddio ond nid dyna a fu.....
Mae'n dyddiau'n llawn fel Pops a Gu!'

*Ifanc mewn Ysbryd*

Dyma bennill hyfryd sy'n crisialu profiad tad-cu a mam-gu (neu Pops a Gu, wrth gwrs, y tro hwn!). Mae'n adrodd cyfrolau o wirionedd mewn pedair llinell a'i wneud yn gwbwl ddiymdrech – yr unig wendid yw bod mydryddiaeth y drydedd linell braidd yn herciog o'i chlymu â'r gweddill, sy'n llifo'n esmwyth, ond dyma bennill sy'n ategu'r ymadrodd 'hydref ein dyddiau' i'r dim.

**Hydref 2022**

(canslo gorymdaith Glyndŵr am bethau amgenach)

Tymor ciw a sioe o liwiau – natur
Eto'n gwisgo angau;
Rhodiwn mewn ffug gatrodau,
O'n Llyw hoff - rhaid ymbellhau.

*Y Dyn Blin*

Dyma englyn sy'n plethu'r ymdeimlad o angau yn sgil dyfodiad yr hydref gyda digwyddiadau mis Medi i'r dim – fel yr awgryma'r ffugenw, englyn o brotest yw hwn yn erbyn y 'ffug gatrodau' a'n gorfododd i 'ymbellhau' o'r orymdaith flynyddol yn sir Ddinbych ac mae wedi'i ddelweddu'n ofalus a'i fynegi'n gynnil o lwyddiannus. Gan fod *y Dyn Blin* yn fy nharo fel englynwr sy'n siŵr o'i grefft, mae gen i gyngor technegol iawn iddo, sef osgoi'r cyfuniad 8-2 yn y llinell gynta os yw hi'n gynghanedd Lusg! Fe fydda i'n ceisio osgoi'r 8-2 beth bynnag gan mai anfynych iawn y bydd y cyfryw linellau'n rhai soniarus (a byth, byth yn defnyddio'r 9-1!) ond mae'r bwlch rhwng yr orffwysfa a'r gyfatebiaeth fel ceunant yn achos y gynghanedd Lusg!

Er pob briw, mae ei liwiau – yn y llun
yn llenwi'r munudau;
a rhoi'n hael, er pob prinhau,
awr eglur ei firaglau.

*Orielydd*

*Orielydd* yw meistr y gystadleuaeth hon, fel y ddeilen olaf honno sy'n glynu i gangen uchaf y goeden. Dyma englyn rhagorol. Mae'r ffugenw (a'r cyrch) yn awgrymu'n gry mai rhywun yn craffu ar ddarlun o'r hydref sy yma ac yn ymateb i'w gyferbyniadau: Yn y paladr, y briwiau tywyll – sef dyfodiad anochel y gaeaf – a'r lliwiau rhyfeddol sy'n nodweddu'r hydref. Yn yr esgyll, wedyn, y prinder a ddaw wrth i'r tymor fynd rhagddo a 'miraglau' amlwg byd natur sy'n cynnig cysur yr adeg hon o'r flwyddyn. Dau gyferbyniad syml ond sy hefyd wedi llwyddo i ddal – a *chreu* – awyrgylch tymor yr hydref i'r dim. Ar lefel metaffor, wedyn, mentraf fod y geiriau 'munudau' ac 'awr' yn fwriadol i gyfleu'r ymdeimlad o dreigl amser a rhywun yn heneiddio, fel yr hydref ei hun (ond yn dal i ddod o hyd i gysur mewn tymor o ddirywiad). Ydy, mae'n englyn sy'n llawn sylwedd. Dyna ran gynta'r ganmoliaeth! Yr ail ran yw'r grefft. Mae *Orielydd* wedi saernïo'i englyn yn hynod o raenus. Mae ôl meddwl yma, meddwl sut i ddweud rhywbeth ar gynghanedd. Dyw hynny ddim yn hawdd o gwbwl, credwch chi fi! Darllenwch yr englyn yn uchel a sylwch ar y modd y mae'n llifo mor ddiymdrech (*Orielydd*, does dim hyd yn oed angen yr hanner colon arnoch chi ar ddiwedd y paladr!). Mae'r gynghanedd yn naturiol o goeth gyda chwip o linell glo. Ys dywed Jim Parc Nest, dyw'r gynghanedd ddim yn rhwydd, y dasg yw gwneud iddi *ymddangos* yn rhwydd! Mae *Orielydd* wedi llwyddo i gyflawni hynny ac mae'n siŵr gen i y byddai'r englyn hwn wedi cael deg marc ar y Talwrn. Llongyfarchiadau mawr i *Orielydd* sy'n fwy na theilwng o'r wobr gynta'r mis hwn gydag englyn sy wedi plesio'r beirniad yn arw o ran sylwedd a chrefft, heb sôn am feirniad sy'n cofleidio'r hydref mor dynn bob blwyddyn.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Medi**

**John Emyr**

**Cystadleuaeth mis Hydref**

Limrig yn cynnwys y llinell
**Mae noson tân gwyllt yma eto**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Hydref at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Mwynhau Medi Heulog*

**Gwilym Dafydd**

### Gwyliau Solfach, Sir Benfro

Trwy lwc ron ni wedi bwcio wythnos o wyliau canol mis Medi ers rhai misoedd. Nid yn unig roedd y tywydd yn hyfryd o heulog trwy'r wythnos, heb law'r prynhawn a nos Iau, cawson ni gyfle gwych i ddianc o un digwyddiad gafodd llawer gormod o sylw ar radio a theledu ym marn rhai ohonom!

Ydych chi'n mwynhau cerdded? Mynd mas neu allan am dro? Mae llwybrau arfordir Sir Benfro yn hynod o brydferth a dyna hyfryd bron pob bore oedd manteisio ar gyfleoedd i ymuno â'r Llwybrau mewn sawl man gwahanol. Nid yn unig yn Solfach ond hefyd yn Traeth Mawr, Abereiddy a Phenrhyn Marloes.



Os ydych yn mwynhau eich bwyd fel fi yna mae modd cael cinio dydd Sul blasus yn yr Harbour Inn a hefyd Y Cambrian Inn yn Solfach.

Aroson ni yn Skomer View yn Llanunwas, Solfach Uchaf. Ron ni wedi aros yno yn mis Medi 2019 ac yn gwybod bod y golygfeydd o'r fflat trydydd llawr yn gyfareddol. Da clywed bod Phil y perchennog bellach yn dysgu Cymraeg – pob lwc iddo fe!

Rhai munudau cyn cyrraedd y tŷ bwyta am ein cinio Sul a cherdded trwy'r maes parcio, stopiwyd ni gan ddwy Albanes yn eu car. Ron nhw'n chwilio am le i barcio ac yn gobeithio ein bod ni ar fin symud ein car! Ron ni wrth gwrs wedi cerdded llwybr yr arfordir o Skomer View, Llanunwas.

Mae un o'r ddwy yn dysgu Cymraeg. Oes unrhyw un ohonoch yn adnabod Nina Finnigan? Mae hi'n byw yn Radur ac yn gweithio i Strategaeth Bryn Cynon yn Ynysboeth ger Abercynon, Cwm Cynon. Mae Nina yn gydlynydd i'r Prosiect Gwrando. Dwi newydd gofio: roedd gen i ddosbarthiadau Cymraeg yn adeilad Bryn Cynon bron chwarter canrif yn ôl!

Yna wedi cerdded nôl i Abereiddy ac yn y maes parcio ar y traeth, sylwais ar gar yn ein pasio'n araf a gweld arwydd CRICC ar y cefn – pobl Caerdydd meddyliais. Y wraig oedd yn gyrru a dwedodd hi 'I know who you are!'

Wele Marilyn Richards, Danescourt, oedd yn fy nosbarth Cymraeg yn Heol Hafren Treganna tua chwarter canrif yn ôl!

Ces i gyfle wedyn i gael sgwrs fach yn Gymraeg gyda John ei gŵr oedd am gyfnod hir yn athro chwaraeon yn Ysgol Uwchradd Llanrhymni Caerdydd. Holais John o le roedd e'n dod yn wreiddiol: Crwbin ger Cydweli. Mae yna eraill o Grwbin yn byw yma yng Nghaerdydd ond does!

Ychydig iawn o siarad Cymraeg a glywais i yn Solfach ac yn Nhŷ Ddewi. Dyna siom! Tybed oes yna Goffi a Chlonc yno? Yn sicr mae angen a chyfle i rywun roi cychwyn ar bethau yn yr ardal.

### Clwb Gwylio Adar

Daeth cwmni bach o chwech draw i Fferm y Fforest ar fore Sadwrn, 3 Medi: Ian a Jan, Isobel, Tudur a diolch i Eirian am arwain y daith. Bydd cyfarfod mis Hydref ar fore'r 8fed yn lle'r 1af oherwydd gorymdaith fawr Annibyniaeth i Gymru i gychwyn am hanner dydd. Bydd cyfarfod mis Tachwedd ar fore Sadwrn y 5ed yn rhan 2 i gefnogi elusen Eglwys Ebeneser sef Tir Dewi. Cynhaliwyd taith rhan 1 ar fore Sadwrn, 2 Gorffennaf. Roedd nifer o ymddiheuriadau felly dyma ail gyfle. Mae'n gyfle misol i fynd am dro, cymdeithasu a mwynhau byd natur yn ardal Fferm y Fforest. Croeso cynnes i bawb.



*Ger camlas Morgannwg*

## Hwyl yr Hydref

Gyda thocynnau ar gyfer gig Bwncath wedi gwerthu mewn chwinciad, peidiwch â cholli cyfle i fwynhau noson Nadoligaidd yng nghwmni Brigyn! Dim ond 30 o docynnau sydd ar gael ar gyfer y noson yng Nghaffi a Deli Foxy's, Penarth, nos Iau, 8 Rhagfyr, felly peidiwch ag oedi cyn prynu eich tocyn.

Cyn hynny wrth gwrs mae hanner tymor. Cadwch lygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol am fanylion llawn ein cynllun **Gofal** ar gyfer plant dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Bydd ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, **Bwrlwm**!, hefyd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg.




Bydd y plant wrth eu boddau yng Nghanolfan Antur Ninja Warrior a'r gwersi marchogaeth yn Liege Manor, heb sôn am y gweithdy 'Gweld Gwyddoniaeth' yn Ysgol Pencae ar 2 Tachwedd. I'r rhai sydd â diddordeb mewn cynllunio a chreu, cynhelir Clwb Ffasiwn i blant 9-13 oed ar ddydd Iau, 3 Tachwedd.

Yn ogystal â'r gweithgareddau gwyliau, bydd y Gweithdy Coginio Calan Gaeaf gyda Cookstars yn Neuadd St Peter's, Tyllgoed ar 22 Hydref yn siŵr o fod yn boblogaidd. Neu beth am roi tro ar ein dau glwb newydd, rhad ac am ddim, ar gyfer plant 7-11 oed? Mae'r Clwb Cerdd yn cwrdd yn Festri Capel Salem bob prynhawn Mawrth yng nghwmni Mei Gwynedd a'r Clwb Ffitrwydd yn hyfforddi dan ofal Elin Wyn Williams yng Nghanolfan Gôl bob prynhawn Mercher.

Mae'r Clybiau Dawns a Drama hefyd yn ail-ddechrau ar foreau Sadwrn a chofiwch fod y Clwb Ffasiwn i bobl ifainc 14-18 oed yn dychwelyd ar 6 Hydref gyda mwy o syniadau crefftus.

I'r oedolion, bydd cwrs Tai Chi, 10 wythnos o hyd, yn cael ei lansio yn Hyb Rhydypennau brynhawn Llun, 17 Hydref. Gallwch gofrestru o flaen llaw am £30 neu dalu £4 wrth y drws fesul dosbarth.

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer y cwrs diweddaraf yn y gyfres Hanes Cymru, **Cartrefi'r Werin: Adeiladau Traddodiadol Cymru** yng nghwmni Dr Eurwyn Wiliam ar Zoom (3, 10, 17 Hydref). Os ydych wedi colli'r sesiwn gyntaf, na phoener, mae recordiad ar gael i'r rhai sy'n ymuno'n hwyr!

Nodi 40 mlynedd o S4C byddwn ni yn **Sgwrs y Mis** nos Lun, 24 Hydref pan fydd Dr Elain Price yn bwrw golwg yn ôl ar **S4C a'i Phartneriaethau Allweddol (1981-1985)**.

Cofiwch hefyd am ein sesiynau i'r rhai bach – Deffro'r Synhwyrau ac Amser Stori. Dewch chi o hyd i wybodaeth ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Cawsom ein cyfarfod agoriadol am dymor 2022-23 ar Fedi 26 gyda chyflwyniad ZOOM oedd yn galw arnom i edrych i fyny. Teitl yr anerchiad oedd Awyr Dywyll, dan ofal Dani Robertson, Swyddog Awyr Dywyll y Bartneriaeth Prosiect Nos rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy , Sir Fôn a Phen Llŷn. Tipyn o ardal! Roedd yn amlwg bod Dani wedi ymgolli'n llwyr yn ei gwasanaeth, er bod cyflawni'r swydd yn golygu oriau maith ar y ffordd ac yn gwylio'r sêr mewn sawl ardal. Clywsom fod yr alwedigaeth wedi cychwyn pan oedd hi'n fach iawn gyda'i thad, yntau'n frwd iawn dros fod allan yn gwylio'r awyr uwchben.

Ers blynyddoedd, gyda dyfod trydan i gartrefi, strydoedd a threfi, bathwyd y term 'llygredd golau'. Rydym oll mewn cariad â golau. Sawl bwlb golau sy yn eich cartref heddiw? Sawl bwlb oedd yn eich cartref pan oeddech yn blentyn? Rydym yn gyfarwydd â gweld goleuadau trefi o bellter, yn enwedig os yw'r goleuadau hynny yn hwyluso chwaraeon. Mae hyn ar gost ddifrifol o wastrafflyd. Cawsom ystadegau gan Dani am y wedd hon, ond at hynny soniodd am fath arall o gost, er enghraifft, y gost i anifeiliaid y nos a'u dryswch oherwydd newid yn eu cynefin - tylluanod ac ystlumod. Mae pobl hefyd yn dioddef oherwydd newid yn eu patrymau cysgu, gan gynnwys diffyg cwsg ar raddfa sylweddol a'i sgîleffeithiau.

Diddorol oedd clywed am agweddau diwylliannol i'r mater, wrth i Dani gyferio at hen chwedlau oedd yn gysylltiedig gyda goleuadau a chysgodion. Clywsom hefyd fod yr 'awyr' wedi dod yn atyniad yn y diwydiant twristiaeth, gyda grwpiau yn teithio milltiroedd i elwa'n llesol ar fod mewn ardaloedd o awyr dywyll. Mae'n rhyfedd meddwl bod dyfod goleuadau i'n cymdeithas, er yn fendith ar y cychwyn, wedi troi yn felltith. Gwaith Dani ac eraill yw gwarchod y trysor ac addysgu pawb i fod yn effro.

*Neville Evans*